


**Asesiad o Anghenion Llety
ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr
2015-2020**



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TREFTADAETH GADARN | DYFODOL SICR

Cynnwys

Pennod Un: Cyflwyniad a Chyd-destun y Polisi	3
Pennod Dau: Cefndir a Dadansoddi Data Presennol.....	7
Pennod Tri: Methodoleg.....	20
Pennod Pedwar: Canfyddiadau'r Arolwg.....	27
Pennod Pump: Asesu Anghenion Llety.....	42
Pennod Chwech: Casgliad a Chamau Nesaf	47
Atodiad 1	49
Atodiad 2.....	51
Cyfeiriadau.....	55

Pennod Un: Cyflwyniad a Chyd-destun y Polisi

Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol ystyried anghenion tai eu hardaloedd o dan Adran 8 o Ddeddf Tai 1985. Mae'r gofyniad yma'n hanfodol i awdurdodau er mwyn sicrhau eu bod nhw â dealltwriaeth gynhwysfawr o nodweddion eu marchnadoedd tai lleol a'u bod nhw'n darparu tystiolaeth gadarn ar gyfer gwasanaethau tai a chynllunio strategol effeithiol. Yn wreiddiol, roedd Adran 225 o Ddeddf Tai 2004 yn ei gwneud hi'n ofynnol hefyd i awdurdodau lleol gynnal asesiad ffurfiol o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr oedd yn byw neu yn ymweld â'u hardal. Ers hynny, mae'r ddyletswydd yma wedi cael ei helaethu yng Nghymru ar ôl i Ddeddf Tai (Cymru) 2014 dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Mae'n ofynnol bellach i Awdurdodau Lleol yng Nghymru gynnal Asesiadau Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac i wneud darpariaeth ar gyfer safleoedd lle mae asesiadau yn nodi angen sydd heb ei ddiwallu ar gyfer lleiniau cartrefi symudol. Mae'r Asesiad yma felly wedi'i baratoi yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru er mwyn galluogi Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i gyflawni ei ddyletswyddau statudol o dan Ran 3 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014. Bydd yr Asesiad yma'n cael ei adnewyddu a'i ail-gyflwyno i Weinidogion Cymru bob pum mlynedd i gydymffurfio yn benodol ag adrannau 101 a 102 o'r Ddeddf.

Yn ôl Adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014, Sipsiwn a Theithwyr yw:

- a) "personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu'u tarddiad, gan gynnwys -
 - (i) personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, ac
 - (ii) aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio), ac
- (b) unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol."

Mae hwn yn ddiffiniad eang, y mae Llywodraeth Cymru o'r farn sy'n "angenrheidiol i gyflawni dealltwriaeth lawn o anghenion llety y cymunedau hyn" (LIC, 2015a, para. 12). Serch hynny, mae'n cael ei bwysleisio y dylid ystyried teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn tai brics

a mortar hefyd er mwyn helpu i bennu'r angen am safleoedd newydd a chanfod sut y gall tai confensiynol, o bosibl, fod yn addas ar gyfer cymunedau o'r fath.

Oherwydd hynny, prif amcan yr astudiaeth yma yw sicrhau bod dealltwriaeth leol gynhwysfawr o anghenion llety cyfredol ac arfaethedig y Sipsiwn a Theithwyr yn Rhondda Cynon Taf. Bydd hyn yn helpu i gyflawni un o flaenoriaethau allweddol Cynllun Darparu Tai Lleol Rhondda Cynon Taf; i sicrhau marchnad dai effeithiol, lle mae pawb yn byw mewn cartrefi addas a fforddiadwy waeth beth yw ei incwm. Mae'r nod yma'n ymestyn yn gynhwysfawr i Sipsiwn a Theithwyr ac mae'n hanfodol eu bod nhw'n cael yr un mynediad i lety (sy'n addas yn ddiwylliannol) ag aelodau eraill o'r gymuned. Yn wir, rydyn ni o'r farn bod, "galluogi marchnad dai leol effeithiol a chytbwys yn hanfodol i feithrin cynhwysiant cymdeithasol, iechyd a lles a sicrhau bod cymunedau cadarn a ffyniannus o fewn Rhondda Cynon Taf" (Cyngor Rhondda Cynon Taf, 2013, tud.7). Bydd yr Asesiad yn helpu i adnabod, deall a darparu'r dystiolaeth i fynd i'r afael ag anghenion llety penodol Sipsiwn a Theithwyr drwy'r fframwaith cynllunio lleol a pholisi tai, a thrwy hynny, gyfrannu at ddewis eang o opsiynau llety lleol. Mae'n angenrheidiol canfod a oes angen ymestyn y safle Cyngor presennol, a ddylai unrhyw safleoedd ychwanegol gael eu darparu ar safleoedd cyhoeddus neu breifat, ac a oes angen cynllunio ar gyfer darparu safleoedd tramwy yn y Fwrdeistref Sirol.

Dyletswyddau, Pwerau a Chanllawiau Cenedlaethol

Mae Cylchlythyr 30/2007 yn nodi, lle mae asesiad yn canfod angen sydd heb ei ddiwallu mewn perthynas â llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn yr ardal, dylai safleoedd addas gael eu dyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol i helpu i ddiwallu'r angen yma. Wrth ddyrannu'r safleoedd yma, dylai'r agosrwydd at aneddiadau presennol a gwasanaethau lleol (h.y. addysg, gofal iechyd a chyfleusterau eraill) gael ei ystyried, ynghyd â phatrymau gweithio presennol Sipsiwn a Theithwyr. Yn yr un modd, mae Cylchlythyr 78/91 yn nodi y dylai awdurdodau cynllunio lleol ystyried anghenion Siewmyn Teithiol wrth baratoi cynlluniau lleol, yn seiliedig ar asesiad realistig o faint o lety sydd ei angen (gan gynnwys lle bu traddodiad o feddiannaeth safle a/neu angen newydd lleol am safleoedd). Oherwydd y cyfuniad braidd yn unigryw o ddefnydd preswyl, storio a chynnal a chadw ar safleoedd o'r fath, mae angen ystyried eu hagosrwydd at y rhwydwaith ffyrdd a'u heffaith ar yr amgylchedd.

Yn ogystal â dyrannu safleoedd addas o ran eu lleoliad, mae Cylchlythyr 30/2007 hefyd yn gofyn am bolisiâu sy'n seiliedig ar feini prawf o fewn Cynlluniau Datblygu Lleol, waeth beth yw'r angen presennol, i ddarparu ar gyfer unrhyw alw yn y dyfodol neu alw annisgwyl. Gall polisi safle eithriedig gwledig Sipsiwn a Theithwyr gyd-fynd â hynny, lle mae diffyg tir fforddiadwy i

ddiwallu anghenion Sipsiwn a Theithwyr yn lleol. Bwriad y fframwaith polisi cenedlaethol yma yw sicrhau bod rhagor o sicrwydd i bawb dan sylw wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol, i helpu i osgoi gwerysyla a datblygu diawdurdod yn y dyfodol a sicrhau bod anghenion lleol Sipsiwn a Theithwyr yn cael eu diwallu.

Mae pob cylchlythyr hefyd yn egluro y gall trefniadau perchnogaeth fod ar sawl ffurf; p'un a yw Sipsiwn a Theithwyr yn dod o hyd i'w safleoedd eu hunain i'w datblygu a rheoli, neu'n eu rhentu ar brydles yn breifat gan drydydd parti. Serch hynny, rydyn ni'n pwysleisio y bydd angen darpariaeth safle cyhoeddus o hyd i'r rheiny sydd ddim yn gallu fforddio'r opsiynau yma a/neu unrhyw deuluoedd sydd angen safleoedd tramwy. Mae Rhan 5 o Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn ymestyn pwerau i awdurdod lleol i ddarparu safleoedd yn ei ardal ar gyfer cartrefi symudol ar gyfer gwyliau a dibenion dros dro eraill neu i'w defnyddio fel preswylfeydd parhaol. Mae'r pŵer yma'n cynnwys darparu safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ynghyd â'r lle anghenrheidiol ar gyfer gweithio, gwasanaethau a chyfleusterau er mwyn iddyn nhw gyflawni gweithgareddau cysylltiedig confensiynol. Gall y safleoedd yma gael eu rheoli'n uniongyrchol gan yr awdurdod lleol neu'u rhentu ar brydles i berson arall, ac mae Canllawiau Llywodraeth Cymru diweddar ar Gynllunio Safleoedd ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn helpu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu "gwasanaethau priodol, am gost resymol i bwrs y wlad[ac] i sicrhau bod eu safleoedd yn addas at y diben. (LIC, 2015b, para. 1.5). Er nad yw'r pwerau yma yn golygu o reidrwydd y bydd gofyn am safleoedd ychwanegol o dan berchnogaeth awdurdodau lleol, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am eu darparu lle maen nhw. Mae Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 hefyd yn ymestyn pwerau i awdurdodau lleol i orfodi safonau penodol ar safleoedd preifat.

Diben penodol y Canllawiau Dylunio yw sicrhau bod safleoedd perthnasol:

- "yn gynaliadwy, wedi'u rheoli'n dda a bod gwaith cynnal a chadw wedi'i gynllunio ac nad yw bob amser yn adweithiol;
- yn cyfateb i rannau perthnasol o safonau a ddisgwylid ar fathau eraill o safleoedd cartrefi symudol a thai cymdeithasol; ac
- yn creu'r amodau sydd eu hangen i hybu a meithrin cysylltiadau da rhwng Sipsiwn a Theithwyr a'r gymuned sefydlog, a rhwng preswylwyr a pherchnogion / rheolwyr safle" (LIC, 2015b, para 1.9).

Mae'r Canllawiau hefyd yn pwysleisio bod yna ymrwymiad parhaus trwy'r Grant Cyfalaf Safleoedd i ariannu (hyd at 100% o gostau cyfalaf) adnewyddu safleoedd presennol a datblygu

safleoedd newydd. £1.5 miliwn yw'r swm uchaf posibl ar gyfer ariannu prosiect. Mae hyn yn seiliedig ar gostau datblygu safle sydd â deuddeg llain. Mae'r canllawiau yn argymhell bod safleoedd newydd yn cynnwys 20 o leiniau neu lai, ac yn annog ymgynghori â phreswylwyr safleoedd (posibl) wrth gynllunio'r cynllun ffisegol.

Mae union leoliad y safleoedd yn fater allweddol arall sy'n cael sylw yn y Canllawiau Cynllunio ac mae hi'n cael ei gwneud yn glir y dylai awdurdodau lleol ystyried mynediad, addasrwydd y tir, gwasanaethau lleol, yr amgylchedd, cyfleustodau a chynaliadwyedd, yn ofalus. Er y gall ffynonellau allweddol o ddata megis y Cyfrifiad Carafannau a chanfyddiadau'r Asesiad Iywio dewisiadau ynghylch lleoli, mae hi'n cael ei gwneud yn glir bod “ffactorau eraill, fel y tir sydd ar gael, cynaliadwyedd safle ac i ba raddau y gellir cael caniatâd cynllunio yn faterion pwysicach i'w hystyried.” (LIC, 2015b, 3.17). Ar ben hynny, er y bu tuedd i Sipsiwn a Theithwyr ddod yn fwy 'sefydlog' ar leiniau parhaol neu mewn tai confensiynol, gall y Grant Cyfalaf Safleoedd hefyd gael ei ddefnyddio i ariannu safleoedd tramwy i “hwyluso ffordd o fyw draddodiadol Sipsiwn a Theithwyr.” (LIC, 2015b, para 6.1). Mae hyn yn cael ei ystyried yn briodol lle mae awdurdodau lleol yn canfod nifer sylweddol o wersylloedd diawdurdod. Dylai lleoliadau'r rhain gael eu defnyddio i ddylanwadu ar leoliad unrhyw safle tramwy.

Pennod Dau: Cefndir a Dadansoddi Data Presennol

Asesiadau blaenorol, polisiau Cynllun Datblygu Lleol a'r cynnydd hyd yma

Cafodd yr Asesiad Llety blaenorol ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr yn Rhondda Cynon Taf ei gynnal yn 2007 ac roedd yn rhan o Sylfaen Dystiolaeth y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig. O ran adnabod angen, nododd yr Asesiad yn benodol fod 6 theulu am gael llain ar safle carafannau awdurdod lleol, a bod 2 deulu yn chwilio am lety ar safle preifat. (Cyngor Rhondda Cynon Taf, 2007, tud.17). Arweiniodd yr angen a gafodd ei nodi at ddyrannu Parc Carafannau yn y Beddau ar gyfer datblygu safle i Sipsiwn a Theithwyr 8 llain o fewn y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig (Mae Polisi Ardal Strategaeth Ddeheuol 27 yn cyfeirio at hyn). Mae paragraff ategol 5.97 yn nodi bod y Cyngor o'r farn y byddai safle Parc Carafannau'r Beddau yn diwallu anghenion a gafodd eu nodi yn yr Astudiaeth Sipsiwn a Theithwyr Ddrafft. Serch hynny, mae'r Cyngor yn bwriadu cadw'r gofyniad ar gyfer darparu safleoedd Sipsiwn a Theithwyr yn Rhondda Cynon Taf dan arolwg. (Cyngor Rhondda Cynon Taf, 2007, para. 5.97).

Yn wreiddiol, datblygwyd Parc Carafannau'r Beddau (o dan berchnogaeth y Cyngor) yn 1968 i ddarparu llety addas ar gyfer Sipsiwn a theuluoedd eraill. Cafodd caniatâd cynllunio ei roi ar gyfer 50 o leiniau ac roedd yr amodau safle yn cael eu nodi ar drwyddedi. Am flynyddoedd lawer, roedd y safle yn llawn ac roedd y preswylwyr yn byw yno'n barhaol. Roedd nifer o leiniau tramwy hefyd. Penderfynwyd cau'r safle ym 1998 a gadawodd nifer o deuluoedd o Sipsiwn/Teithwyr. Symudodd llawer ohonyn nhw i lety brics a mortar. Cyn sefydlu'r Gofrestr Tai Cyffredin newydd yn 2012, doedd dim unrhyw restr aros ar gyfer y safle. O ganlyniad, roedd hi'n anodd cyfrifo'r angen net am leiniau.

Yn 2010, roedd teuluoedd yn byw ar 7 o'r lleiniau, er nad oedd lleiniau gwag ar gael (roedd modd eu defnyddio) oherwydd cyflwr cyffredinol y cyfleusterau a chyflwr amgylcheddol cyffredinol y safle. Yn dilyn dyraniad y Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig, gwnaeth y Cyngor gais i adnewyddu chwe llain, a derbyn cynnig am Grant Adnewyddu Safleoedd Sipsiwn Cymru mewn perthynas â Pharc Carafannau'r Beddau ym mis Mawrth 2010. Sicrhaodd ymgysylltiad parhaus â phreswylwyr y safle ddealltwriaeth a chefnogaeth ar gyfer y gwaith. Arweiniodd hynny at gynllun sy'n bodloni eu hanghenion unigol ac anghenion y gymuned yn gyffredinol. Y nod gwreiddiol oedd cwblhau'r gwaith o fewn blwyddyn a llwyddwyd i gyflawni'r nod yma, gyda:

- System ddraenio newydd
- Isadeiledd a gwasanaethau newydd

- Lefelu topograffeg y safle i hwyluso darparu 6 llain bwrpasol (cafodd llain ychwanegol ei darparu ar gyfer un o'r preswylwyr gwreiddiol sydd ddim yn Sipsi nac yn Deithiwr)
- Adeiladu 6 bloc o gyfleustodau safon uchel

Erbyn 2011, roedd y preswylwyr wedi ailymgartrefu a chafodd cytundebau trwydded newydd eu llunio a'u cymeradwyo. Mae'r gwaith adnewyddu wedi helpu i wella ansawdd bywyd, iechyd a lles cyffredinol preswylwyr y safle ac mae rhagor o welliannau wedi cael eu cyflawni. Mae nodweddion dylunio sy'n defnyddio ynni naturiol wedi gwella diogelwch ar y safle gan lwyddo i gynnal amgylchedd sy'n ystyriol i deuluoedd ac sy'n ennyn balchder cymunedol.

Mae teuluoedd yn byw ar y rhan fwyaf o'r lleiniau o hyd, yn dilyn cwblhau'r gwaith adnewyddu, ac mae lefel y trosiant wedi bod yn isel. Ers 2012, mae 3 llain wedi bod yn wag ond mae'r rhain i gyd wedi cael eu hailddyrannu i deuluoedd newydd trwy'r Gofrestr Tai Cyffredin. Ar hyn o bryd, does dim teuluoedd sy'n dweud eu bod nhw'n 'Sipsiwn neu'n Deithwyr Romani / Gwyddelig' sy'n aros am lain carafan ar y Gofrestr Tai Cyffredin. Serch hynny, ddylai hynny ddim cael ei ystyried yn gynrychiadol o anghenion y gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn gyffredinol. Er hynny, mae'n bosibl y bydd modd ehangu'r safle presennol os oes angen, oherwydd mai ar gyfer 8 llain roedd y dyraniad gwreiddiol yn hytrach na'r 6 sydd yno ar hyn o bryd.

Yn ogystal â'r safle sydd wedi'i ddyrannu ei hunan, mae'r Cynllun Datblygu Lleol mabwysiedig yn cynnwys polisi sy'n seiliedig ar feini prawf i ddarparu ar gyfer unrhyw alw annisgwyl neu alw yn y dyfodol. Mae hynny er mwyn caniatáu diwallu anghenion nad oes modd eu diwallu yn rhesymol ym Mharc Carafannau'r Beddau. Mae Polisi Ardal Gyfan 15 yn nodi,

Bydd cynigion ar gyfer y defnydd o'r tir ar gyfer lleoli carafannau sy'n perthyn i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol yn cael eu caniatáu lle mae modd dangos:

1. Nad oes modd darparu'r datblygiad arfaethedig ar y safle sy'n cael ei ddyrannu gan Bolisi Ardal Strategaeth Ddeheuol 26;
2. Bod y datblygiad arfaethedig yn gysylltiedig â gwasanaethau lleol;
3. Bod y datblygiad arfaethedig yn cael ei leoli ar dir sydd wedi'i ddatblygu eisoes, lle bo hynny'n bosibl;
4. Bod y datblygiad arfaethedig yn cynnwys digon o le ar gyfer parcio a symud yr holl gerbydau sy'n gysylltiedig â'r preswylwyr o fewn cwrtil y safle;
5. Bod gwasanaethau digonol ar y datblygiad arfaethedig ar gyfer cyflenwi dŵr; pŵer; draenio; gwaredu carthion; a chyfleusterau gwaredu gwastraff;
6. Nad yw'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith wael ar adnoddau dŵr wyneb neu ddŵr daear

(Cyngor Rhondda Cynon Taf, 2011, tud.66).

Mae paragraff ategol 5.98 yn egluro ymhellach,

mai bwriad y polisi yma yw caniatáu datblygu tir ar gyfer lleoli carafannau i Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn Teithiol mewn mannau addas. Er mwyn diogelu cymeriad a golwg yr ardal, bydd angen i gynigion datblygu ddangos na fyddan nhw'n cael effaith wael ar amwynder yr ardaloedd preswyl presennol, ar weithredu'r rhwydwaith priffyrdd yn ddiogel ac ar y ddarpariaeth o lefydd parcio ac amwynderau gweledol. (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, 2011).

Data Poblogaeth o'r Cyfrifiad


Am y tro cyntaf, roedd Cyfrifiad 2011 yn cynnwys 'blwch ticio' pwrpasol ar gyfer y grŵp ethnig 'Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig'. Roedd y canlyniadau a gafodd eu casglu hefyd yn cynnwys unrhyw un a ysgrifennodd 'Sipsi' neu 'Deithiwr' o dan 'unrhyw gefndir gwyn arall'. Ar y llaw arall, doedden nhw ddim yn cynnwys unigolion a oedd wedi ysgrifennu 'Roma' oherwydd bod y rhain yn cael eu hystyried yn grŵp ar wahân gydag anghenion gwahanol i Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig. (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2014, tud.2). Roedd y Swyddfa Ystadegau Gwladol hefyd yn sicrhau ei bod hi'n cadw rhestr lawn o gyfeiriadau safleoedd Sipsiwn neu Deithwyr (boed swyddogol neu answyddogol) at ddibenion dosbarthu'r holiadur. Ar draws Cymru gyfan, dewisodd 2,731 o bobl nodi mai Sipsiwn neu Deithiwr Gwyddelig oedden nhw, sydd yn cyfateb i 0.09% o boblogaeth Cymru. Yn Rhondda Cynon Taf yn unig, dewisodd 53 o unigolion 'Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig' wrth lenwi'r ffurflen Cyfrifiad, sy'n cyfateb i 0.02% o'r boblogaeth leol, a bron i bum gwaith yn llai na chyfartaledd Cymru mewn termau cymharol. Serch hynny, doedd y Cyfrifiad ddim yn rhoi dadansoddiad ar gyfer yr ardaloedd o fewn yr awdurdod lleol oherwydd y nifer fach o ymatebion.

Y band oedran mwyaf cyffredin ar gyfer y rheiny a ddewisodd Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig oedd 25-29 oed, a oedd yn llawer is na'r cyfartaledd ar gyfer Rhondda Cynon Taf yn ei chyfanrwydd (40-44 oed) ar y pryd. Mae'r ddau byramid poblogaeth yn Ffigur 1 a 2 sy'n dilyn yn dangos hyn yn fwy clir. Mae'r ffigurau yma hefyd yn ein helpu ni i ddeall pa mor fach yw cyfran y boblogaeth leol sydd wedi dweud eu bod nhw'n Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig yn y Cyfrifiad. Serch hynny, mae'n bwysig pwysleisio ei bod hi'n


"bosibl nad yw'r nifer hwn yn cynnwys aelodau o'r cymunedau hyn sy'n petruso rhag eu cynnwys eu hunain yn y categori hwn gan ofni gwahaniaethu, am eu bod yn

ymuniaethu'n fwy â chategorïau ethnigrwydd eraill (e.e. Gwyddelig Gwyn) neu am resymau eraill, er bod y Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi ceisio mynd i'r afael â'r materion hyn". (LIC, 2015a, para. 16).

Ffigur 1 Pyramid Poblogaeth Rhondda Cynon Taf (pob ethnigrwydd)



Ffigur 2 Pyramid Poblogaeth Rhondda Cynon Taf (Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig)



Gan gadw'r cyfyngiad yma mewn cof, nododd Cyfrifiad 2011 mai tŷ cyfan neu fyngalo yw'r math mwyaf cyffredin o lety ar gyfer ymatebwyr a nododd eu bod nhw'n Sipsiwn neu'n Deithwyr Gwyddelig, sef 71%, sy'n llawer is nag ar gyfer yr holl drigolion arferol yn Rhondda Cynon Taf (95%). Nododd 29% o'r Sipsiwn neu'r Teithwyr Gwyddelig eu bod nhw'n byw mewn fflat, maisonette neu lety symudol / dros dro, sy'n llawer uwch na'r ganran ar gyfer poblogaeth Rhondda Cynon Taf yn ei chyfanrwydd (5%). Gan fod y nifer gyntaf mor fach, dydy hi ddim yn bosibl darparu dadansoddiad ar wahân ar gyfer carafannau neu strwythurau symudol / dros dro eraill. Serch hynny, mae'n ymddangos bod y tueddiadau yma'n adlewyrchu gwaith ymchwil arall, sy'n amcangyfrif mai rhwng hanner a thri chwarter y Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yn byw mewn tai brics a mortar. (Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2014, tud.16).

Dangosodd Cyfrifiad 2011 hefyd bod 22 o **aelwydydd** wedi dewis Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig wrth lenwi'u ffurflenni, sy'n golygu mai 2.4 person yw maint cyfartalog aelwydydd cysylltiedig. O ran daliadaeth, roedd nifer y bobl oedd yn berchen ar eu tai eu hunain yn llai ar gyfer y grŵp ethnig yma (55%) o'i gymharu â'r holl aelwydydd yn Rhondda Cynon Taf (71%). Roedd y gweddill yn nodi eu bod nhw un ai'n rhentu llety cymdeithasol (27%) neu lety preifat (18%). Er, ar gyfartaledd, mae'r gyfran sy'n byw mewn tai cymdeithasol tua 14% yn uwch, mae'r gyfran sy'n rhentu llety preifat yn cymharu'n fras â'r boblogaeth yn gyffredinol (dim ond 3% yn uwch).

Cyfrifiad Carafannau, Darpariaeth Llety Bresennol a Hanes Cynllunio

Diffiniad safle preswyl Sipsiwn neu Deithwyr Gwyddelig yw:

"llety preswyl parhaol o dan berchnogaeth breifat neu berchnogaeth yr Awdurdod Lleol. Bydd y safle yma'n cael ei ddynodi'n safle ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr am gyfnod amhenodol. Gall preswylwyr y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau cyhyd ag y byddant yn cadw at delerau eu cytundebau llain, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013. Efallai bydd man gwaith yn cael ei ddarparu ar y safleoedd (neu'n agos atyn nhw) ar gyfer gweithgareddau aelodau o'r gymuned" (LIC, 2015, tud.3).

Mae safleoedd preifat yn cael eu prynu a'u datblygu gan Sipsiwn neu Deithwyr ar gyfer eu teulu agos (neu estynedig), hynny yw, fel perchen-feddianwyr a rhentu sector preifat. Ar y llaw arall, mae safleoedd cyhoeddus yn cael eu darparu gan awdurdodau lleol ac mae llain ar y safle yn cael ei rhentu oddi wrth yr awdurdod, er bod gan y preswylwyr gytundeb trwydded yn hytrach na chytundeb tenantiaeth. Mae'r Cyngor yn monitro nifer y safleoedd preswyl o fewn ei ffiniau gweinyddol trwy gyfrif y carafannau ddwywaith y flwyddyn. Cafodd hyn ei ailgyflwyno yng Nghymru yn 2006 ac yn cael ei gynnal gan awdurdodau lleol ym mis Ionawr ac ym mis

Gorffennaf. Mae'n nodi nifer y carafannau Sipsiwn a Theithwyr ar safleoedd awdurdodedig a diawdurdod yng Nghymru, ynghyd â manylion y lleiniau ar safleoedd awdurdodau lleol. Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi'r diffiniad yma:

gall 'carafán' fod yn unrhyw un o'r canlynol: cartref symudol, carafán, trelar, a cherbyd arall mae modd byw ynddo ar safleoedd neu wersylloedd Sipsiwn, p'un a yw'r rhain yn dilyn y diffiniad cyfreithiol union o garafán ai peidio; carafannau teithio ar safleoedd a gwersylloedd Sipsiwn a Theithwyr hyd yn oed os nad yw pobl yn byw ynddyn nhw'n barhaol; pebyll, 'benders' neu 'yurts' lle mae'r rhain yn llety byw 'parhaol' i Sipsiwn a Theithwyr (LIC, 2015c, tud.12). (wedi'i gyfieithu)

Mae cyfrif yn y modd yma'n helpu i sicrhau nad yw unrhyw garafannau sydd heb gartref parhaol yn cael eu cyfrif ddwywaith ar draws Cymru, er ei fod yn methu â chofnodi effeithiau amrywiadau tymhorol ar nifer y carafannau. Prif gyfyngiad arall yw bod y dull yma'n cyfrif carafannau yn hytrach na theuluoedd. Yn ogystal â hynny, dydy e ddim yn cynnwys Sipsiwn a Theithwyr sy'n byw mewn tai brics a mortar. Rhaid pwysleisio felly nad bwriad y cyfrifiad ei hunan yw “to be an estimate of the Gypsy or Irish Traveller population in Wales” (LIC, 2014c, tud.8 - Saesneg yn unig) a hefyd “nid yw'r Cyfrifiad yn rhoi gwybodaeth am anghenion, dymuniadau, dyheadau nac incymau'r aelwydydd” (LIC, 2014b, tud.20). Serch hynny, mae'n helpu i ddarparu man cychwyn ar gyfer nodi a mapio cymunedau Sipsiwn a Theithwyr ac yn ddefnyddiol pan fydd yn cael ei driongli â ffynonellau eraill o ddata ansoddol. Yn wir, mae Ffigwr 3 isod yn dangos lleoliadau'r carafannau a gafodd eu cyfrif yn Rhondda Cynon Taf rhwng mis Ionawr 2011 a mis Gorffennaf 2015. Yn Ffigwr 3, rydyn ni'n gallu gweld bod nifer y carafannau wedi bod yn eithaf sefydlog dros y pedair blynedd a hanner diwethaf ac mae pum safle sefydledig wedi cael eu nodi. Yn fwy diweddar, fodd bynnag, mae rhai newidiadau wedi bod yn y data sydd wedi'u cofnodi. Mae'n bosibl esbonio rhai o'r rhain oherwydd materion diffinio ond mae rhai eraill wedi dod yn sgîl newidiadau yn y boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn Rhondda Cynon Taf. Byddwn ni'n dadansoddi'r newidiadau ar gyfer pob safle ymhellach yn eu tro ac yn ychwanegu gwybodaeth o gofnodion Cynllunio Lleol.

Cyfrifiad Carfanau RhCT

10 Carafán




Safle Cyngor



Safle Preifat Awdurdodedig



Safle Preifat Diawdurdod



Safle Awdurdod Lleol yn Nhaf-elái

Mae hwn yn safle Cyngor parhaol sydd wedi'i awdurdodi ac a dderbyniodd ganiatâd cynllunio yn 2010. Saith carafán sydd wedi cael eu cyfrif yn gyson yn y gorffennol ar y safle yma, er gwaethaf y nifer fach ym mis Ionawr 2011 pan oedd gwaith adnewyddu yn cael ei wneud. Yn wir, mae saith carafán ar y safle o hyd er bod un ohonyn nhw'n perthyn i deulu sydd ddim yn Sipsiwn neu'n Deithwyr, sydd wedi byw ar y safle ers ei ddatblygu'n wreiddiol. Gan hynny, cafodd y garafán yma ei chynnwys ar gam yn y Cyfrifiad Carafannau hyd at fis Gorffennaf 2015, pan gafodd chwe charafán eu cofnodi'n gywir (h.y. un yn llai nag a gafodd eu cofnodi yn y gorffennol). Mae'r chwe llain yn barhaol ac mae ffioedd wythnosol yn daladwy yn uniongyrchol i'r Cyngor.

Safle Carafannau yn Nhaf-elái

Does dim hanes cynllunio o bwys ar gyfer y safle preifat hirsefydlog yma - mae'n dyddio o tua 1970, felly fyddai fe ddim yn destun gorfodi cynllunio. Er nad yw hwn yn safle Sipsiwn neu Deithwyr, mae nifer o aelwydydd sydd â gwreiddiau Sipsiwn a Theithwyr yn dod i fyw ar y safle yma o bryd i'w gilydd. Rhwng mis Ionawr 2011 a mis Ionawr 2013, cafodd saith carafán eu cofnodi ar y safle yma. Cynyddodd y nifer yna i naw yn y pedwar Cyfrifiad Carafannau dilynol. Serch hynny, dydy cyfrifiad mis Gorffennaf 2015 ddim wedi cofnodi unrhyw garafannau ar y safle yma. Mewn gwirionedd, roedd hyn o ganlyniad i wybodaeth newydd a gafodd ei derbyn gan y Garfan Materion Strategaeth a Safonau Tai yn egluro nad oedd Sipsiwn neu Deithwyr yn byw ar y safle (er gwaethaf y ffaith bod carafannau yno). Datgelodd trafodaethau dilynol gyda pherchennog y safle fod pedwar teulu o Sipsiwn yn byw ar y safle dros dro.

Safle Sipsiwn yn Nhaf-elái

Mae hanes o saith o geisiadau cynllunio ar gyfer y safle yma yn dyddio'n ôl i 2006. Cafodd y mwyafrif eu tynnu'n ôl ond cafodd yr un mwyaf diweddar ei gymeradwyo yn 2009 ar gyfer 'lleoli carafannau ar gyfer dwy lain Sipsi gyda llawr caled atodol at y defnydd hwnnw'. Mae'r safle yma felly yn safle Sipsi parhaol, preifat, awdurdodedig ac roedd Cyfrifiadau Carafannau blaenorol wedi cofnodi bod tair carafán ar y safle, sy'n cyfateb â'r ceisiadau cynllunio. Serch hynny, cofnododd y cyfrifiad mwyaf diweddar ym mis Gorffennaf 2015 ddwy garafán ychwanegol, sydd bellach yn dod i gyfanswm o bump. Mae ymweliadau dilynol wedi datgelu nad yw'r ddwy garafán ychwanegol yma bellach ar y safle, sy'n awgrymu eu bod nhw yno dros dro yn unig.

Safle Teithwyr yng Nghwm Cynon

Cafodd caniatâd cynllunio ei roi ar gyfer y safle preifat yma yn 2009 er mwyn newid defnydd y tir o amaethyddol i safle ar gyfer teulu o Deithwyr gan gynnwys lleoli 2 gartref symudol, 2 garafán teithio, parcio ac adeilad cyfleustodau bach. Yn wir, cofnododd pob Cyfrifiad Carafannau bod pedair carafán ar y safle yn barhaol. Serch hynny, yn ystod y Cyfrifiad Carafannau diwethaf, daethon ni i wybod bod y preswylwyr wedi derbyn cynnig am y tir gan berchennog y tir cyfagos ac roedd y teulu wedi symud oddi ar y safle. Dydy'r Cyngor ddim yn gwybod i ble symudon nhw ond mae'r perchennog tir wedi nodi na fydd y safle ei hunan bellach yn cael ei ddefnyddio'n Safle ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr ac nad yw e bellach mewn cysylltiad â'r preswylwyr blaenorol. Dydy'r ffynonellau eraill o wybodaeth ddim yn dangos bod y preswylwyr yma'n byw yn Rhondda Cynon Taf o hyd.

Safle ar gyfer Siewmyn Teithiol yn Nhaf-elái (1)

Dyma safle hirsefydlog, parhaol a gafodd ei hepgor yn y cyfrifiadau carafán blaenorol. Mae'n darparu lle ar gyfer teuluoedd Siewmyn Teithiol ac fe gafodd pedair carafán eu cofnodi ym mis Gorffennaf 2015. Mae cofnodion cynllunio yn dangos bod y safle wedi cael ei ddefnyddio ers dros 50 mlynedd ar gyfer storio cerbydau ac offer yn ystod tymor y ffeiriau hwyl. Cafodd darn o dir ei drosglwyddo i'r perchnogion gan y Cyngor ym 1998 yn rhan o becyn iawndal pan gafodd y Cyngor ddarn o dir arall drwy brynu gorfodol ar gyfer cyfleusterau Parcio a Theithio ac adeiladu stad o dai. Mae adroddiadau cynllunio o gwmpas y flwyddyn 2000 yn dangos bod teulu estynedig yn byw ar y safle yma, er nad oes hanes cynllunio ers 2005. Fyddai'r safle, felly, ddim yn destun camau gorfodi cynllunio. Mae ymweliadau diweddar wedi dangos bod tair carafán ar leiniau ar y safle, er bod dwy o'r carafannau hynny yn wag (roedd un o'r preswylwyr wedi symud i mewn i gartref gofal, ac roedd y preswyllydd arall dramor). Ar ben hynny, roedd carafán arall yn cael ei chadw ar y safle, er nad oedd hi ar lain.

Siewmyn Teithiol yn Nhaf-elái (2)

Dyma safle preifat parhaol ar gyfer Siewmyn Teithiol; sydd wedi'i rannu'n ddwy iard yn agos i'w gilydd. Does gan y naill iard na'r llall ddim unrhyw hanes cynllunio perthnasol mae modd ei olrhain. Yn ogystal â hynny, oherwydd bod yr ierdydd mor hirsefydlog, fydden nhw ddim yn destun camau gorfodi cynllunio. Chafodd y safle yma mo'i gynnwys mewn cyfrifiadau carafannau cyn mis Gorffennaf 2013 achos nad oedd y diffiniad gwreiddiol (oedd yn cael ei ddefnyddio gan yr Adran Gwaith a Phensiynau) yn cynnwys Siewmyn Teithiol. Yn ddiweddarach, cafodd y diffiniad yma ei newid gan Lywodraeth Cymru ac yn sgîl hynny, cafodd y safle Siewmyn Teithiol yma ei gynnwys o fis Gorffennaf 2013 pan gofnodwyd saith o

garafannau. Parhaodd hynny hyd nes i'r cyfrifiad mwyaf diweddar ganfod dwy garafán ychwanegol ar y safle, sef cyfanswm o naw. Serch hynny, mae ymweliadau mwy diweddar wedi dangos mai dim ond tair carafán oedd ar y safle ac fe gadarnhaodd preswylwyr fod y teulu arall wedi symud i safle ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Gwersyll Diawdurdod yng Nghwm Rhondda

Ar un adeg, roedd y safle yma'n perthyn i'r awdurdod lleol ond cafodd ei werthu ar y farchnad agored. Mae'r perchennog presennol bellach yn byw dramor. Ym mis Rhagfyr 2014, daeth grŵp o Deithwyr yr Oes Newydd i'r safle a gosod clogfaen ar y fynedfa. Cafodd pedair carafán eu cofnodi ar y safle yng nghyfrifiad carafannau mis Ionawr. Cynyddodd y ffigwr yma i 10 yng nghyfrif mis Gorffennaf 2015. Yn wir, mae nifer y carafannau wedi codi a gostwng ers i'r gwersyll gael ei sefydlu, er i ymweliad ym mis Rhagfyr 2015 ddangos bod yna gyfanswm o bum carafan wedi'u clystyru ar un rhan benodol o'r safle. Er bod hwn yn wersyll diawdurdod, dydy'r Cyngor ddim wedi cymryd camau ffurfiol a dydy'r Teithwyr ddim wedi cael bygythiad o gael eu troi allan gan y perchnogion absennol. Serch hynny, gall y sefyllfa yma newid a bydd hi'n cael ei monitro gan yr Awdurdod Lleol.

Safle Diawdurdod yn Ffynnon Taf

Cafodd gwersyll diawdurdod â dwy garafán ei gofnodi yn ystod y cyfrifiad carafannau ym mis Ionawr 2012, er bod y preswylwyr ar y safle dros dro yn unig. Dydyn ni ddim wedi gweld unrhyw garafannau ar y safle ers hynny. Doedd cyrchfan y Sipsiwn neu'r Teithwyr yma ddim yn hysbys.

Cyn bo hir, bydd y broses cyfrif carafannau yma'n cael ei datblygu'n gofnod parhaus o wersylla diawdurdod ar draws Cymru, er mwyn ychwanegu at y data chwemisol ymhellach. Bydd hyn yn darparu data gwell ar lefel leol ynghylch lleoliad, amllder, maint a math y safleoedd diawdurdod er mwyn helpu i gynllunio'n well ar gyfer diwallu anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Dangosodd Cofnodion Cynllunio o'r gorffennol hefyd fod dau safle arall na chafodd eu cofnodi yn y Cyfrifiad Carafannau. Byddwn ni'n ymhelaethu ar y rhain yn eu tro.

Safle Sipsiwn a Theithwyr yn Nhaf-elái

Mae'r cyntaf o'r rhain yn ymwneud â chais Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr am ddwy garafan breswyl ac un garafan deithiol. Cafodd dau gais cynllunio eu gwrthod i ddechrau, ac yna'u taflu allan mewn apêl yn 2002 a 2006, yn y drefn honno. Datgelodd trafodaethau gyda Swyddogion

Tai y symudodd y teulu i gartref brics a mortar yn y sector rhentu cymdeithasol yn ddiweddarach, er i'r denantiaeth ddod i ben yn 2013. Dydy patrymau symud dilynol y teulu ddim yn hysbys i'r Landlord Cymdeithasol Cofrestredig na'r Cyngor.

Safle ar gyfer Siewmyn Teithiol yng Nghwm Cynon

Cafodd caniatâd cynllunio ei roi ar ôl apêl yn 2006 ar gyfer newid defnydd y tir (a oedd yn cael ei ddefnyddio diwethaf i brosesu glo) yn ddepo Siewmyn Teithiol a chartref iddyn nhw yn ystod y gaeaf a oedd yn cynnwys llety byw, a lle i storio a chynnal a chadw offer ffair hwyl. Yn ôl y cofnodion cynllunio, roedd 6 o bobl yn byw ar y safle (o'r un teulu ac o dair cenhedlaeth). Roedd y safle preifat yma wedi cael ei hepgor o'r cyfrifiad carafannau blaenorol, er i ni ganfod ei fod e wedi'i leoli'n barhaol ar y tir a'i fod e yn sicr yn awdurdodedig.

Gwersylloedd Diawdurdod

Yn ystod yr Asesiad yma, cafodd dau wersyll diawdurdod eu cofnodi hefyd ar **safleoedd gwahanol** yn Nhonysguboriau. Roedd y cyntaf yn cynnwys tair carafán, a phedair carafan oedd yn y gwersyll arall. Ymwelon ni â'r ddau wersyll yn ystod yr Asesiad ond doedd y preswylwyr ddim yn fodlon cymryd rhan yn yr arolwg a symudon nhw oddi ar y ddau safle ychydig o ddyddiau yn ddiweddarach. Bydd rhagor o wybodaeth ynglŷn â hyn yn cael ei darparu ym Mhennod Pedwar.

Cafodd gwersylloedd diawdurdod eraill eu cofnodi yn ystod haf 2013; gyda saith carafán ar safle yn Abercynon, tair ar safle yn Aberdâr a dwy ar safle yn Nhrefherbert. Mae'r rhain i gyd yn ardaloedd daearyddol gwahanol a symudodd y preswylwyr ymlaen i leoliadau anhysbys y tu allan i Ronda Cynon Taf.

Data eraill sy'n ymwneud â phoblogaeth

lechyd

Ymgysylltodd y Garfan Strategaeth Materion Tai â Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf er mwyn canfod a oedd unrhyw ddata poblogaeth ychwanegol ar gael. Datgelodd cyfarfodydd mewnol gydag Arweinwyr y Garfan Ymwelwyr Iechyd fod Sipsiwn a Theithwyr o ddau safle awdurdodedig wedi gwneud eu hunain yn hysbys o dro i dro. Roedd yr unigolion yma eisoes yn hysbys i'r Cyngor ac roedden nhw wedi cael eu gwahodd i gymryd rhan yr Arolwg. Doedd dim gwybodaeth arall ar gael gan Feddygon Teulu.

Staff y Cyngor

Y Cyngor yw'r cyflogwr mwyaf yn Rhondda Cynon Taf yn ei chyfanrwydd. Cafodd arolwg cydraddoldeb a monitro gwirfoddol ei gynnal ar gyfer y staff yng nghanol 2015. Roedd yr arolwg yma'n cynnwys cyfle i'r gweithwyr nodi eu bod nhw'n Sipsiwn neu'n Deithwyr. Yn dilyn trafodaethau mewnol gyda Charfan Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y Cyngor, canfyddon ni nad oedd dim un o aelodau o staff y Cyngor wedi nodi eu bod nhw'n 'Sipsi neu Deithiwr'.

Addysg

Datgelodd trafodaethau mewnol gydag adran Addysg y Cyngor fod deuddeg plentyn Sipsi neu Deithiwr yn hysbys i'r Awdurdod Addysg Lleol, yn seiliedig ar yr unigolion yn nodi eu hethnigrwydd ar ryw adeg yn bersonol. Roedd dau o'r unigolion yma'n byw mewn tai brics a mortar (yn yr un cartref) ond roedd y gweddill yn byw ar y safleoedd sydd wedi'u crybwyll uchod. Cysyllton ni â phob un o'r teuluoedd a'u gwahodd i gymryd rhan yn yr arolwg i asesu anghenion llety sipsiwn a theithwyr.

Cofrestr Tai Cyffredin

Mae'r Gofrestr Tai Cyffredin yn galluogi teuluoedd i gyflwyno cais am dai fforddiadwy yn Rhondda Cynon Taf. Yn rhan o fonitro cydraddoldeb ac amrywiaeth, gall ymgeiswyr ddewis disgrifio eu tarddiad ethnig fel "Sipsi, Romani, Teithiwr Gwyddelig" a gwneud cais am dai confensiynol neu lain carafan. Ar ôl cynnal yr Asesiad yma, gwelon ni fod dim un teulu wedi dewis y tarddiad ethnig yma, a oedd yn aros am lain carafán yn Rhondda Cynon Taf. Serch hynny, roedd un teulu a oedd wedi disgrifio'i darddiad ethnig yn "Sipsi, Romani, Teithiwr Gwyddelig" yn aros am fflat. Cysyllton ni â'r teulu yma i ofyn iddo gymryd rhan yn yr arolwg.

Pennod Tri: Methodoleg

Paratoi

Dydy'r data presennol (ar eu pennau eu hunain) ddim yn cael eu hystyried yn ddigonol i gynnal asesiad oherwydd bod cyn lleied o bobl yn y cymunedau Sipsiwn a Theithwyr, a'r diffyg gwybodaeth sydd ar gael sy'n ymwneud ag anghenion, dewisiadau a mynediad i safleoedd preifat. Gall dibynnu ar ddata eilaidd "arwain at wallau annisgwyl yn yr amcanestyniadau dros amser", ac felly, "rhaid defnyddio dull mwy manwl y Cyfrifiad (neu arolwg o ddata 'cynradd') i asesu anghenion Sipsiwn a Theithwyr" (LIC, 2015a, para. 21). Serch hynny, mae'n hanfodol bod y broses yn cael ei chefnogi gan yr holl randdeiliaid o ystyried y sensitifrwydd sydd ynghlwm wrth faterion sy'n ymwneud â Sipsiwn a Theithwyr a'r ffaith y gall aelodau o'r gymuned yma, yn aml iawn, fod yn anfodlon trafod â chyrrff sector cyhoeddus. Felly, ymgymeron ni â gwaith paratoi sylweddol cyn cynnal yr asesiad yma er mwyn helpu i sicrhau bod yr holl bartïon cysylltiedig yn derbyn y broses ac yn ei deall.

Chwaraeodd y Garfan Strategaeth Materion Tai ran allweddol yn hyn o beth, gan sicrhau bod yr holl randdeiliaid allweddol yn cydweithio mewn ffordd unedig. Cafodd Arweinydd Prosiect ei benodi o fewn y Garfan Strategaeth Materion Tai ei hun a Swyddogion Strategaeth Materion Tai amrywiol eraill yn ei gynorthwyo. Roedd y rhain yn gweithio'n agos gyda Swyddog penodedig yn yr Adran Cynllunio. Wrth baratoi, ymgymerodd yr Arweinydd Prosiect a nifer o'r Swyddogion eraill â Hyfforddiant Llywodraeth Cymru ynglŷn â chynnal Aseidiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr.

Grŵp Llywio a Grŵp Ffocws

Cyn dechrau ar unrhyw arolygon, cafodd grŵp llywio ei sefydlu i oruchwylio paratoi'r asesiad. Roedd gan y Grŵp Llywio ystod o gyfrifoldebau gan gynnwys pennu nodau a chanlyniadau'r astudiaeth, pennu'r ymchwilyr, rhoi cyhoeddusrwydd i'r rhanddeiliaid a darparu gwybodaeth leol i lywio'r ymchwil. Roedd y Grŵp Llywio yn cynnwys amrywiaeth o swyddogion sydd â gwybodaeth sefydledig o'r gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn Rhondda Cynon Taf a oedd wedi meithrin perthynas gyda nhw eisoes. Yn fwy penodol, roedd y Grŵp Llywio yn cynnwys cynrychiolwyr o'r canlynol:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf
Parc Carafannau'r Beddau (Rheolwr) - Cyngor RhCT
Partneriaeth Cymunedau Diogel - Cyngor RhCT
Carfan Ymgynghori - Cyngor RhCT
Addysg - Cyngor RhCT
Cydraddoldeb ac Amrywioldeb - Cyngor RhCT

Roedd yr wybodaeth berthnasol a diweddaraf ynglŷn â'r Grŵp Llywio yn cael ei rhoi i ddau Aelod o'r Cabinet, sef, y Dirprwy Arweinydd a'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Trechu Tlodi, Ymgysylltu a Thai, yn ogystal â'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, Cydraddoldeb a'r Gymraeg. Cafodd cynrychiolwyr eraill, sef elusen Achub y Plant, Sipsiwn a Theithwyr Cymru a'r Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydau Romani eu gwahodd i ymuno â'r Grŵp Llywio ond roedden nhw'n methu â bod yn bresennol.

Byddai'r rhanddeiliad olaf yma, yn arbennig, wedi bod o gymorth i gyflawni argymhelliad y Canllawiau Asesu (LIC, 2015a, para. 58) i gynnwys aelod o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn y Grŵp Llywio. Serch hynny, daethon ni i ateb mwy ymarferol i liniaru'r mater yma, sef creu grŵp ffocws. Yn wir, oherwydd lledaeniad daearyddol eang y gwahanol safleoedd ar draws Rhondda Cynon Taf, roedden ni o'r farn y byddai ymweld â safle yn uniongyrchol yn fwy synhwyrol, gan gynnwys cyfarfod grŵp ffocws wedi'i deilwra mwy anffurfiol, fel y cafodd ei awgrymu yn ystod sesiwn hyfforddiant Llywodraeth Cymru. Roedd trafod y broses Asesu Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn fras â'r Grŵp Ffocws yn rhoi'r cyfle i aelodau o'r gymuned roi'u sylwadau ar dechnegau ymgysylltu, codi'r cwestiynau y byddai'r gymuned yn debygol o'u gofyn a darparu cyngor ynglŷn â rheoli disgwyliadau. Sicrhodd y swyddogion arweiniol fod barn y Grŵp Ffocws yn derbyn y sylw priodol a bod adborth yn cael ei roi i'r Grŵp Llywio.

Yn benodol, trafododd y Grŵp Ffocws ystod o faterion fel sydd wedi'u crynhoi isod:

- Roedd y Grŵp o'r farn bod y daflen yn dda, yn glir, ac yn addas at y diben. Cafodd hi ei chanmol yn arbennig oherwydd ei lliwiau a'i lluniau deniadol, a'i hystyried i fod yn hawdd ei deall.
- Awgrym y Grŵp oedd rhoi copïau o'r daflen mewn gwasanaethau traffyrdd a gorsafoedd petrol yn ogystal â swyddfeydd mae'r cyhoedd yn ymweld â nhw ledled Rhondda Cynon Taf.
- Roedd y grŵp o'r farn mai'r ffordd orau o ymgysylltu â Sipsiwn/Teithwyr oedd wyneb yn wyneb drwy drefnu cyfarfod drwy rywun roedden nhw'n ei adnabod. Serch hynny, roedd y Grŵp yn cydnabod nad oedd hyn bob amser yn bosibl ac y byddai hi felly yn well i geisio cysylltu â phobl dros y ffôn neu drwy lythyr. Pwysleisiodd y Grŵp fod lefelau llythrennedd yn isel ymhlith y gymuned, er bod rhywun ar y safle fel arfer sy'n

gallu darllen llythyr. Serch hynny, cynghorodd y Grŵp na ddylid ymweld â safle heb roi rhybudd ymlaen llaw lle bo'n bosibl.

- Barnwyd mai'r ffordd orau o gysylltu â'r rheiny sy'n byw mewn tai brics a mortar oedd trwy gyswllt teuluol yn y lle cyntaf, neu, fel arall, dros y ffôn. Barnwyd nad oedd cysylltu drwy lythyr yn briodol oherwydd y lefelau llythrennedd ymhlith y boblogaeth gysylltiedig, ac roedd y Grŵp o'r farn na fyddai ymweliad heb wahoddiad yn llwyddiannus iawn.
- Rhybuddiodd y Grŵp, fodd bynnag, yn erbyn gwthio pobl yn rhy galed. Barnwyd y byddai aelwyd yn ffonio'r rhif ar y daflen/poster a chymryd rhan yn yr arolwg pe bai'n fain arni neu ei bod hi ag angen go iawn. Serch hynny, cafodd ei bwysleisio y dylai pwrpas yr Asesiad gael ei egluro o'r cychwyn cyntaf er mwyn sicrhau bod y bobl yn gwybod beth yn union roedden nhw'n cymryd rhan ynddo a beth fyddai'r canlyniadau yn debygol o fod.

Cafodd cyfarfod o'r Grŵp Llywio ei gynnal cyn yr Asesiad ei hun. I ddechrau, cafodd nodau mwyaf pwysig yr ymchwil eu trafod, sef, cyflawni dyletswyddau statudol y Cyngor a deall anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr yn Rhondda Cynon Taf. Yn ogystal â hynny, craffwyd ar yr holiadur a gafodd ei ddarparu gan Lywodraeth Cymru. Penderfynodd y Grŵp ei fod e'n addas ar gyfer nodau'r ymchwil ac nad oedd angen ychwanegiadau pellach.

Yn y drafodaeth gychwynol, un o'r prif bynciau allweddol eraill yr ymdriniwyd ag ef oedd sefydlu pwy yn union fyddai'n casglu'r dystiolaeth ac yn dadansoddi'r data cyfatebol. Ystyriodd y grŵp ystod o opsiynau, gan gynnwys defnyddio ymgynghorwyr i gynnal yr arolygon yn unig, neu gynnal yr Asesiad i gyd yn fewnol. Er mwyn llywio'r trafodaethau yma'n well, cafodd cyfarfod ei gynnal gyda nifer o awdurdodau cyfagos i drafod dulliau gweithredu amgen. Cafodd ei ganfod bod y rhan fwyaf o'r awdurdodau cyfagos wedi sefydlu cysylltiadau gyda'r gymuned ac y bydden nhw'n cynnal yr ymchwil yn fewnol. Penderfynodd y Grŵp Llywio felly y byddai'r Asesiad cyfan yn cael ei gynnal yn fewnol, wedi'i ddadgyfuno yn ddwy elfen allweddol. Yn gyntaf, cafodd tri swyddog eu penodi i gynnal yr ymchwil sylfaenol (Rheolwr Parc Carafannau'r Beddau, y Swyddog Ymgysylltu a Darparu Tai a'r Swyddog Cydlyniant Cymunedol). Roedd hyn oherwydd bod rhai Swyddogion â chysylltiadau â rhannau penodol o'r Gymuned Sipsiwn a Theithwyr eisoes, a bod eraill â phrofiad blaenorol ym maes ymgynghori. I gynorthwyo'r swyddogion yma, cafodd bas data cyffredin ei sefydlu fel y byddai modd i adrannau mewnol gwahanol rannu data mewn ffordd sy'n cydymffurfio â'r Ddeddf Diogelu Data. Yn y modd yma, cafodd gwybodaeth leol gan aelodau o'r Grŵp Llywio ei chasglu yn briodol. Yn ail, cafodd un o'r Swyddogion

Strategaeth Tai ei benodi i gymryd y rhan arweiniol wrth ddadansoddi'r data ei hun a pharatoi'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr oherwydd ei brofiad helaeth blaenorol o gynnal prosiectau ymchwil tebyg megis yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol.

Roedd y penderfyniad paratoadol terfynol a wnaeth y Grŵp Llywio yn ymwneud â hyrwyddo'r broses gyfan i'r gymuned. Sicrhodd y swyddogion oedd â chysylltiadau blaenorol â safleoedd a theuluoedd penodol bod preswylwyr yn cael eu hysbysu ar lafar am y broses asesu, y manteision priodol, a sut oedd mynd ati i gymryd rhan. Gofynnwyd i'r un preswylwyr hefyd i rannu'r wybodaeth yma â'u teuluoedd a'u ffrindiau yn y gymuned. Yn wir, dyma'r hyn a gafodd ei argymhell gan y Grŵp Ffocws yn brif fodd o hyrwyddo'r Asesiad ac ennill ymddiriedaeth. I gyd-fynd â'r dull yma, a'r hysbyseb cenedlaethol a gafodd ei osod gan Lywodraeth Cymru yn y cyhoeddiad World's Fair, argymhellodd y Grŵp Llywio y dylid paratoi taflen ddeniadol heb lawer o eiriau ar gyfer ei dosbarthu'n eang yn lleol. Cydweithiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful i ddefnyddio'r un graffig, cynllun lliw ac arddull er mwyn cadw cysondeb. Cafodd y daflen ei dosbarthu'n eang i swyddfeydd cymdeithasau tai lleol, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, Canolfannau iBobUn, siopau, sinemâu a gorsafoedd petrol, fel roedd y Grŵp Ffocws wedi'i argymhell. Cafodd ei rhoi ar wefan y Cyngor hefyd. Mae copi o'r daflen ddwyieithog wedi'i chynnwys yn Atodiad 1. Yn ogystal â hynny, ymdrechodd y Cyngor i ymgysylltu â chynifer o sefydliadau oedd mewn cysylltiad â Sipsiwn a Theithwyr yn Rhondda Cynon Taf ag y bo modd. Roedd y rhain yn cynnwys Achub y Plant, y Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydau Romani, Sipsiwn a Theithwyr Cymru ac Urdd y Siewmyn. Serch hynny, chafodd gwybodaeth gyswllt newydd mo'i darparu gan y sefydliadau yma. Cafodd gwybodaeth leol, fodd bynnag, ei darparu gan yr Adran Addysg, Rheolwr Parc Carafannau'r Beddau, y Gofrestr Tai Cyffredin a'r Bwrdd Iechyd Prifysgol, a gafodd ei mewnbynnu i fas data cyffredinol yn barod ar gyfer cynnal yr arolygon.

Ymgysylltu ag awdurdodau lleol eraill

Yn ystod y broses asesu, cafodd nifer fawr o drafodaethau eu cynnal gydag awdurdodau cyfagos a manteisiwyd ar y cysylltiadau strategol oedd yn bodoli eisoes. Yn ogystal â chyswllt un-i-un rheolaidd, cafodd diweddariadau mwy ffurfiol eu darparu yng Nghyfarfodydd Fforwm Tai Rhanbarthol De Ddwyrain Cymru a Fforwm Llety Sipsiwn a Theithwyr Cymru Gyfan. Canolbwyntiodd trafodaethau mewn Cyfarfodydd Fforwm blaenorol ar y fethodoleg roedd y gwahanol awdurdodau lleol yn bwriadu ei defnyddio. Roedd y mwyafrif yn mynd i gynnal yr Asesiad yn fewnol, ond roedd nifer ohonyn nhw yn bwriadu defnyddio ymgynghorwyr.

Trafododd Swyddogion Rhanbarthol ffyrdd o hysbysebu'r broses a chytunodd pawb y byddai taflen ddarluniol a mwy syml yn cael ei defnyddio a'i dosbarthu. Cafodd ffyrdd clir o gyfathrebu eu sefydlu hefyd rhag ofn y byddai arolygon yn datgelu ymatebwyr oedd â chysylltiadau hirsefydlog mewn awdurdodau cyfagos a/neu boblogaethau Sipsiwn a Theithwyr oedd yn symud ar draws ffiniau gweinyddol yn rheolaidd. Byddai diweddariadau yn ymwneud â chynnydd a phroblemau gyda'r arolygon yn cael eu rhoi i'r Fforymau o bryd i'w gilydd, er mwyn ysgogi trafodaeth effeithiol.

Er mwyn sicrhau bod pob math o ymgysylltu wedi cael ei gwblhau, mae Tabl 1 yn nodi'r rhestr wirio a ddarparodd Llywodraeth Cymru.

Tabl 1: Rhestr Wirio Ymgysylltu

1.	Ymweld â phob aelwyd o Sipsiwn neu Deithwyr a bennwyd drwy'r broses dadansoddi data hyd at 3 gwaith, os bydd angen.	Ymwelon ni â phob cartref ar y bas data cyffredin hyd at 3 gwaith oni bai fod y teulu wedi nodi'n benodol nad oedd yn dymuno cymryd rhan yn yr Aseiad. Edrychwch ar y cofnod cyfweld (Tabl 2).
2.	Cyhoeddi manylion y broses asesu, gan gynnwys manylion cyswllt fel y gall aelodau o'r gymuned ofyn am gyfweliad, ar wefan yr Awdurdod Lleol, ar wefan Travellers' Times ac yn y cyhoeddiad World's Fair.	Cafodd taflenni deniadol eu rhoi yn swyddfeydd cymdeithasau tai lleol, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, Canolfannau iBobUn, siopau, sinemâu a gorsafoedd petrol fel roedd y Grŵp Ffocws wedi'i argymhell. Cafodd ei rhoi ar wefan y Cyngor hefyd. Rhoddodd Llywodraeth Cymru hysbyseb ar ran Awdurdodau Lleol Cymru yn y cyhoeddiad World's Fair, er na wnaeth hynny yn y Travellers' Times oherwydd na fyddai wedi cael ei gyhoeddi tan ddiwedd mis Tachwedd, a oedd, ym marn Llywodraeth Cymru, yn rhy hwyr.
3.	Ymgynghori â sefydliadau cymorth cymunedol perthnasol.	Fe gysyllton ni â nifer o sefydliadau cymorth cymuned gan gynnwys Achub y Plant, y Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydau Romani, Sipsiwn a Theithwyr Cymru ac Urdd y Siewmyn. Serch hynny, chawson ni ddim unrhyw wybodaeth newydd.

<p>4. Datblygu rhestr aros Awdurdod Lleol ar gyfer lleiniau a thai a fydd yn agored i aelodau o'r gymuned ac y byddant yn cael eu hysbysu amdani.</p>	<p>Mae rhestr aros awdurdod lleol wedi bodoli ers mis Hydref 2012 yn rhan o'r Gofrestr Tai Cyffredin gyffredinol. Mae'r ffurflen gais yn rhoi'r cyfle i deuluoedd nodi eu hethnigrwydd fel 'Sipsi, Romani, Teithwyr Gwyddelig' a chyflwyno cais am lain carafan yn ogystal â mathau eraill o lety sydd ar gael. Ar adeg cynnal yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr, gwelwyd bod un aelwyd o'r fath ar y rhestr aros. Roedd hi'n aros am fflat yn hytrach na llain carafán. Cysylltwyd â'r aelwyd yma ond er hynny, dewisodd hi i beidio ag ymateb.</p>
<p>5. Ceisio cynnwys Sipsiwn a Theithwyr yng ngrŵp llywio prosiect y GTAA.</p>	<p>Cafodd cynrychiolwyr o Achub y Plant, Sipsiwn a Theithwyr Cymru a'r Cwmni Diwylliannol a Chelfyddydau Romani eu gwahodd i ymuno â'r Grŵp Llywio ond roedden nhw'n methu â bod yn bresennol. Felly, cafodd cyfarfod Grŵp Ffocws ei gynnal gydag aelodau o'r gymuned er mwyn rhoi adborth i'r Grŵp Llywio yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru.</p>
<p>6. Sicrhau bod manylion cyswllt sy'n cael eu darparu i'r Awdurdod Lleol gan aelodau o'r gymuned drwy broses yr arolwg yn cael eu dilyn a bod anghenion yn cael eu hasesu.</p>	<p>Cafodd cyfweiliad ei gynnal yn dilyn pob atgyfeiriad.</p>
<p>7. Ystyried cynnal digwyddiadau hysbysrwydd ar y GTAA ar safleoedd (neu gerllaw) i egluro pam y dylai aelodau o'r gymuned gymryd rhan a chymell preswylwyr ar safleoedd i ddod â phobl eraill gyda nhw na fydd yr Awdurdod Lleol yn gwybod amdanynt o bosibl.</p>	<p>Cafodd cysylltiadau ag aelodau presennol o'r gymuned a pherchnogion safleoedd preifat eu defnyddio i ledaenu'r neges fod y Cyngor yn awyddus i ymgysylltu yn rhagweithiol â Sipsiwn a Theithwyr. Cafodd cyfarfod Grŵp Ffocws ei gynnal ar un safle, a gofynnwyd i gyfranogwyr hyrwyddo'r broses ymhlith y gymuned, ac yn yr un modd, bob aelwyd arall a gafodd ei harolygu.</p>

Dechreuodd y cyfweiliadau eu hunain ym mis Gorffennaf 2015 a daethon nhw i ben ym mis Rhagfyr 2015. Roedd y Grŵp Llywio o'r farn bod digon o amser o fewn y cyfnod yma i gynnal y cyfweiliadau, ac y byddai'r amserlen yn addas gan ei bod hi'n cynnwys tymor yr haf pan fydd Sipsiwn a Theithwyr efallai yn teithio'n aml (i mewn i Rondda Cynon Taf ac allan ohoni), a bod misoedd y gaeaf yn cael eu cynnwys hefyd, pan fydd Sipsiwn a Theithwyr yn fwy tebygol o aros yn yr un lle.

Pennod Pedwar: Canfyddiadau'r Arolwg

Ceisiodd swyddogion y Cyngor ymgysylltu â 30 o gartrefi i gyd a chafodd 13 o gyfweiliadau eu cynnal. Mae'r Canllawiau yn nodi, "y bwriad yw y bydd cyfwelwyr yn llenwi'r holiadur ei hun yn ystod sgwrs wyneb yn wyneb ag aelod o bob aelwyd" (LIC, 2015a, para. 122) a chafodd hyn ei gyflawni mewn 12 allan o 13 achos llwyddiannus.

Yn aml, roedd hi'n bosibl ymgysylltu yn llwyddiannus drwy ddefnyddio porthor y gymuned. Yn benodol, roedd y chwe theulu ar safle'r Cyngor i gyd yn fodlon ymgysylltu oherwydd bod apwyntiadau wedi cael eu trefnu ymlaen llaw drwy Reolwr y Safle, a oedd wedi sefydlu perthynas dda gyda'r preswylwyr eisoes. Roedd aelwyd arall wedi cysylltu â Llywodraeth Cymru ar ôl gweld hysbyseb yn y cyhoeddiad World's Fair ac roedd hi felly yn fodlon cymryd rhan yn yr arolwg pan gysylltodd y Cyngor â hi. Anogodd yr aelwyd yma aelwyd arall (oedd yn perthyn iddi) i gymryd rhan. Darparodd yr aelwyd yma fanylion cyswllt ar gyfer trydydd teulu o Siewmyn Teithiol a oedd yn byw mewn rhan arall o Ronda Cynon Taf, a arweiniodd, bron, at lenwi arolwg arall. Yn anffodus, doedd amseriad yr arolwg ddim yn gyfleus i'r aelwyd am resymau personol ac felly, doedd hi ddim yn bosibl cyfweld â'r aelwyd yma. Er hynny, roedd defnyddio perthnasau aelodau o'r gymuned yn cael ei ystyried yn brif fodd o ymgysylltu â Sipsiwn a Theithwyr gan y Grŵp Ffocws ac mae'r enghreifftiau yma yn profi hynny.

Oherwydd diffyg porthorion eraill, ymwelon i â safleoedd roedd y Cyngor yn gwybod amdanyn nhw heb wneud trefniadau ymlaen llaw. Er nad oedd hyn yn dechneg ymgysylltu roedd y Grŵp Ffocws yn ei chymeradwyo, doedd dim unrhyw fanylion cyswllt eraill gyda ni. Serch hynny, bu'r dull yma yn llwyddiannus mewn tri achos. Roedd tair aelwyd o Siewmyn Teithiol yn fodlon llenwi'r arolwg ar ôl i'w bwrpas gael ei esbonio iddyn nhw. Er mwyn helpu i gael gwared ar rwystrau posibl, aeth cyfuniad o gyfwelwyr gwrywaidd a benywaidd at y safleoedd, gan wisgo dillad smart ond anffurfiol. Dylid nodi, fodd bynnag, bod un o'r aelwydydd wedi'i digio gan y term 'Asesiad Sipsiwn a Theithwyr' oherwydd ei bod o'r farn nad oedd y categoreddio eang yma'n briodol i gynrychioli anghenion Siewmyn Teithiol.

Doedd hi ddim yn bosibl cyfweld ag un o'r aelwydydd wyneb yn wyneb oherwydd roedd yr aelwyd honno (sy'n byw mewn gwerysll diawdurdod) yn teithio dramor ar y pryd heb ddyddiad dychwelyd penodol. Serch hynny, cynigiodd yr aelwyd i lenwi'r arolwg yn electronig ac anfonodd ffurflen drwy e-bost at y Cyngor. Er bod yr ymateb yma wedi'i gynnwys yn y dadansoddiad o

ganfyddiadau'r arolwg, mae rhai o'r atebion yn fyr oherwydd nad oedd hi'n bosibl gofyn cwestiynau atodol, fel byddai'r achos mewn cyfweiliad wyneb yn wyneb. Roedd hyn yn anochel ond yn anffodus, oherwydd bod yr aelwyd benodol yma'n fwy awyddus i siarad â'r Cyngor, a byddai wedi gallu gweithredu fel porthor a'n galluogi ni i ymgysylltu â'r preswylwyr eraill yn y gweryll diawdurdod. Fel sydd wedi'i nodi yn y Cofnod Cyfweiliadau (Tabl 2), chafodd apwyntiad arall oedd wedi'i drefnu gydag aelod arall o'r un gymuned mo'i anrhydeddu, ac er i ni geisio cysylltu â'r safle yma dros y ffôn ar ôl hynny, atebodd neb. Roedd hi felly yn amhosibl pennu anghenion llety'r gymuned yma, yn enwedig o gofio bod nifer y carafannau wedi amrywio yn gyson rhwng 5 a 10.

Roedd peidio ag ymateb i alwadau ffôn, taflenni ac ymweliadau personol yn rhwystr arall, fel sydd wedi'i gofnodi yn Nhabl 1, a chafodd y mater yma ei drafod gan y Grŵp Llywio. Roedd y Grŵp o'r farn, fodd bynnag, bod y Cyngor wedi gwneud popeth o fewn ei allu i hyrwyddo'r Asesiad ac fe rybuddiodd yn benodol rhag gweithredu mewn modd oedd yn ymddangos fel pe bai'r Cyngor yn targedu teuluoedd neu yn eu gorfodi nhw i gymryd rhan. Fel y pwysleisiodd y Grŵp Ffocws, mae hawl gan deuluoedd i beidio ag ymgysylltu â'r Cyngor.

Yn olaf, digwyddodd yr unig achosion o wrthod llwyr yn y ddau wersyll tymor byr diawdurdod ar wahanol safleoedd yn Nhonysguboriau. Doedd gan un set o aelwydydd mo'r awydd i ddefnyddio safle awdurdodedig (hyd yn oed safle tramwy). Dywedodd y set arall nad oedd diddordeb gyda nhw a doedd dim anghenion gyda nhw (gan gynnwys iechyd, addysg a llety) i'w diwallu. Mae'r cofnod cyfweiliadau yn Nhabl 2 yn rhoi rhagor o fanylion am yr ymdrechion i ymgysylltu â'r boblogaeth Sipsiwn a Theithwyr yn Rhondda Cynon Taf. Mae dadansoddiad o ganfyddiadau'r arolwg yn dilyn hynny.

Tabl 2: Cofnod cyfweiliadau

Cyfeiriad	Math o ddaliadaeth	Ymdrechion i gynnal cyfweiliadau			Technegau ymgysylltu a gafodd eu defnyddio	A lanwyd holiadur?	Rhesymau dros wrthod?
Parc Magden Tonysguboriau	Gwersyll dros dro diawdurdod	08/07/2015			Ymweliad safle heb ei drefnu ymlaen llaw (3 aelwyd)	Gwrthod	Cydweithredodd y preswylwyr. Esbonion ni bwrpas yr holiadur (gan nodi'r angen am safleoedd tramwy). Dywedodd y preswylwyr nad oedden nhw'n awyddus i gymryd rhan yn yr arolwg ac nad oedd diddordeb gyda nhw mewn aros ar safleoedd awdurdodedig oherwydd eu bod nhw dim ond yn aros am gyfnodau byr. Dywedon nhw y byddai'n well gyda nhw aros dros dro ar unrhyw dir addas am ddiwrnod neu ddau ar y tro.
Cwm Rhondda	Gwersyll diawdurdod	13/08/2015	14/09/2015	16/09/2015	Ymweliad safle heb ei drefnu ymlaen llaw - galwadau ffôn yn dilyn hynny (2 aelwyd yn cydweithredu)	Cafodd un arolwg ei lenwi yn electronig - methu â chwblhau arolygon gyda'r preswylwyr eraill	Cafodd ymweliad safle heb ei drefnu ymlaen llaw ei gynnal ddydd Mercher 10 Awst rhwng 10.30am a 12.30pm. Trafododd Swyddogion Cymunedau Diogel y problemau gall y gymuned fod yn eu hwynebu, ac arweiniodd hyn at rif ffôn yn cael ei roi i'r Cyngor. I ddechrau, cafodd apwyntiad ei drefnu ar gyfer 17 Awst i gynnal trafodaeth gyda nifer o'r Teithwyr. Ffoniodd y person cyswllt ar fore'r ymweliad i'w ganslo. Cafodd sawl ymgais eu gwneud i gysylltu â nhw dros y ffôn ar ôl hynny, ond chododd neb y ffôn. Roedd un o'r Teithwyr ar y safle ar fin gadael i deithio dramor am gyfnod amhenodol ond fe anfonodd gopi o'r arolwg drwy e-bost.
Safle Awdurdod Lleol Taf-elái, Llain 1	Safle Awdurdod Lleol	11/09/2015			Apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw (1 aelwyd)	Wedi'i gwblhau	
Safle Awdurdod Lleol Taf-elái, Llain 2	Safle Awdurdod Lleol	11/09/2015			Apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw (1 aelwyd)	Wedi'i gwblhau	
Safle Awdurdod Lleol Taf-elái, Llain 3	Safle Awdurdod Lleol	11/09/2015	12/09/2015		Apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw, wedi'i aildrefnu (1 aelwyd)	Wedi'i gwblhau	
Safle Awdurdod Lleol Taf-elái, Llain 4	Safle Awdurdod Lleol	11/09/2015			Apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw (1 aelwyd)	Wedi'i gwblhau	
Safle Awdurdod Lleol	Safle	11/09/2015			Apwyntiad wedi'i drefnu	Wedi'i gwblhau	

Taf-elái, Llain 5	Awdurdod Lleol				ymlaen llaw (1 aelwyd)		
Safle Awdurdod Lleol Taf-elái, Llain 6	Safle Awdurdod Lleol	11/09/2015			Apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw (1 aelwyd)	Wedi'i gwblhau	
Safle Cartrefi Symudol Taf-elái	Safle Preifat Awdurdodedig	23/09/2015	20/10/2015	04/11/2015	Apwyntiad gyda pherchennog y safle a galwadau ffôn dilynol (4 aelwyd)	Methu â chwblhau	Cafodd cyfarfod ei gynnal i drafod a oedd unrhyw Sipsiwn neu Deithwyr yn byw ar y safle. Dywedodd y perchennog fod 4 aelwyd o Sipsiwn yn byw ar y safle dros dro. Serch hynny, eglurodd y perchennog na fyddai'r aelwydydd yn fodlon cyfarfod ar y safle gyda'r Cyngor a fyddai ddim yn briodol i fynd atyn nhw yn ddirybudd. Cynigiodd y perchennog i egluro'r broses i'r pedair aelwyd ar ran y Cyngor a rhannu taflenni/holiaduron. Doedd y preswylwyr ddim yn awyddus i gymryd rhan er i ni geisio cysylltu ar ddwy adeg arall.
Safle Siewmyn Teithiol Taf-elái (1) Llain 1	Safle Preifat Awdurdodedig	08/10/2015			Ymweliad safle heb ei drefnu ymlaen llaw (1 aelwyd)	Wedi'i gwblhau	Dylid nodi bod llain arall ar y safle yma oedd wedi'i meddiannu, ond roedd yr aelwyd wedi mynd dramor am gyfnod amhenodol ac yn methu â chwblhau arolwg ar wahân.
Safle Siewmyn Teithiol Taf-elái (2) Llain 1	Safle Preifat Awdurdodedig	08/10/2015			Ymweliad safle heb ei drefnu ymlaen llaw (1 aelwyd)	Wedi'i gwblhau	
Safle Siewmyn Teithiol Taf-elái (2) Llain 2	Safle Preifat Awdurdodedig	08/10/2015			Ymweliad safle heb ei drefnu ymlaen llaw (1 aelwyd)	Wedi'i gwblhau	
Safle Siewmyn Teithiol Taf-elái (2) Llain 3	Safle Preifat Awdurdodedig	08/10/2015			Ymweliad safle heb ei drefnu ymlaen llaw (1 aelwyd)	Wedi'i gwblhau	
Taf-elái	Safle Preifat Awdurdodedig	08/10/2015	04/11/2015	18/11/2015	Ymweliad safle heb ei drefnu ymlaen llaw Ceisio cysylltu dros y ffôn Cafodd llythyr ei anfon i'r safle (2 aelwyd)	Methu â chwblhau	Ddim yn bosibl siarad â'r preswylwyr. Ymosododd cŵn ffyrnig ar y cyfwelwyr ar y safle ac roedd rhaid iddyn nhw adael oherwydd diogelwch personol. Roedd ymdrechion diweddarach i gysylltu dros y ffôn a thrwy lythyr yn aflwyddiannus.

Neuadd Glan-elái, Tonysguboriau	Gwersyll dros dro diawdurdod	19/10/2015			Ymweliad safle heb ei drefnu ymlaen llaw (4 aelwyd)	Gwrthod	Cydweithredodd y preswylwyr. Doedd dim un o'r preswylwyr yn awyddus i gymryd rhan, gan ddweud nad oedd diddordeb gyda nhw a doedd dim anghenion (iechyd, addysg a llety) gyda nhw i'w diwallu.
Taf-elái	Brics a mortar	20/10/2015			Apwyntiad wedi'i drefnu ymlaen llaw (Drwy hysbyseb Llywodraeth Cymru) (1 aelwyd)	Wedi'i gwblhau	
Taf-elái	Brics a mortar	23/11/2015	24/11/2015	03/12/2015	Ceisio ffonio Anfonwyd taflen i'r cyfeiriad Ymweliad â'r eiddo heb ei drefnu ymlaen llaw (1 aelwyd)	Methu â chwblhau	Dim ymateb i'r tair ymdrech i gyfathrebu
Cwm Rhondda	Brics a mortar	01/12/2015	02/12/2015	09/12/2015	Galwadau ffôn i linellau tir a ffonau symudol, gadawyd neges. Doedd hi ddim yn bosibl ymweld yn ddirybudd nac anfon llythyrau oherwydd rhesymau cyfrinachedd. (1 aelwyd)	Methu â chwblhau	Galwadau ffôn niferus i rifau llinell tir a symudol sydd yn ein meddiant. Gadawyd neges ond dim ymateb.
Cwm Cynon	Safle Preifat Awdurdodedig	04/12/2015	08/12/2015	09/12/2015	Cawson ni rif ffôn gan aelod arall o'r gymuned. Galwadau ffôn niferus, llwyddiannus (1 aelwyd)	Gwrthod ar hyn o bryd	Cawson ni drafodaeth fanwl gyda'r preswlydd gan esbonio'r rhesymau dros gynnal yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a'r manteision o gymryd rhan. Yn wreiddiol, roedd yr aelwyd wedi cytuno i ni gyfweld â hi ar 9 Rhagfyr 2015 ond canslwyd yr apwyntiad ar yr un diwrnod am resymau personol. Dywedodd y preswylwyr nad oedd modd iddyn nhw gymryd rhan bryd hynny ond efallai y byddai modd gwneud hynny yn y dyfodol. Serch hynny, dywedodd y preswylwyr fod y safle preifat yn ddigon mawr ar gyfer anghenion y teulu.


Taf-elái	Brics a mortar	11/12/2015	14/12/2015		Cawson ni rif ffôn gan aelod arall o'r teulu. Llwyddon ni i drefnu apwyntiad ar ôl sgwrs dros y ffôn. (1 aelwyd)	Wedi'i gwblhau	
----------	----------------	------------	------------	--	---	----------------	--

Nifer yr aelwydydd yn ôl math o lety ac ethnigrwydd

Dewisodd yr un deg tri o deuluoedd a gymerodd ran yn yr arolwg nifer o wahanol fathau o ethnigrwydd, sy'n golygu bod Cymuned Sipsiwn a Theithwyr gymharol amrywiol yn byw yn Rhondda Cynon Taf (Ffigwr 4). Cafodd ethnigrwydd pennaf mo'i gofnodi yn yr arolygon; er ei bod hi'n amlwg bod y preswylwyr oedd yn byw ar safle'r Awdurdod Lleol ynghyd ag amryw o safleoedd Siewmyn Teithiol yn fwy parod i gymryd rhan.

Roedd naw allan o ddeg aelwyd yn byw ar leiniau awdurdodedig. Dywedodd yr aelwydydd yma bod eu rhesymau dros wneud hynny yn ymwneud i raddau helaeth â chysylltiadau teuluol a gwaith lleol. Rhoddodd yr aelwyd arall fwy o bwyslais ar ei dewis i fyw mewn carafan yn hytrach na mewn tŷ. Dywedodd y ddwy aelwyd oedd yn byw mewn tai brics a mortar bod rhaid iddyn nhw symud i lety o'r fath oherwydd prinder safleoedd, ond y byddai'n well gyda nhw fyw mewn carafan. Yn olaf, pwysleisiodd yr aelwyd oedd wedi bod yn byw yn y gwrsyll diawdurdod ei bod hi dim ond yn gwneud hynny oherwydd prinder lleiniau awdurdodedig amgen.


Ffigwr 4 Ethnigrwydd Aelwydydd a Math o Lety



Proffil Demograffig o'r Boblogaeth


Roedd cyfansoddiadau'r teuluoedd hefyd yn amrywio, er 1 oedolyn benywaidd gydag 1 plentyn dibynnol, ac 1 oedolyn ar ei ben ei hun oedd y cyfansoddiad mwyaf cyffredin (4 aelwyd fesul categori), wedi'u dilyn gan 2 oedolyn heb blant (3 aelwyd). Roedd y ddwy aelwyd arall yn cynnwys dau oedolyn gyda mab oedd ddim yn ddibynnol, a dau oedolyn gyda dau o blant (Ffigwr 5).

Ffigwr 5 Cyfansoddiad yr Aelwydydd



Mae'r pyramid poblogaeth (Ffigwr 6) yn edrych yn fwy manwl ar grwpiau oedran yr unigolion oedd yn rhan o'r aelwydydd a gymerodd ran yn yr arolwg. Nodwch nad yw Ffigwr 6 yn cynnwys un unigolyn (50 oed) a ddewisodd beidio â datgelu ei ryw, er, gan gynnwys yr unigolyn yma, mae 23 o unigolion yn byw yn yr 13 o aelwydydd a gymerodd ran yn yr arolwg. Mae hyn yn cymharu â chyfanswm o 53 o unigolion a nododd eu bod nhw'n 'Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig' yn y Cyfrifiad, neu 22 o aelwydydd. Er y dylid ail-bwysleisio i'r Cyngor geisio ymgysylltu â 30 o aelwydydd i gyd, mae'n annhebygol bod cydberthynas berffaith rhwng y ddwy set o ddata.

Ffigwr 6 Pyramid Poblogaeth o'r unigolion sy'n rhan o'r aelwydydd a gymerodd ran



Er enghraifft, mae Ffigwr 6 yn dangos bod cyfran eithaf mawr o unigolion (8 allan o 23) yn dod o fewn y grŵp 20-39 oed, sydd yn eithaf tebyg i ystod oedran yr unigolion a gafodd ei nodi yn y Cyfrifiad (Ffigwr 2). Serch hynny, mae Ffigwr 6 hefyd yn dangos pum unigolyn rhwng 50 a 69 oed a thri unigolyn 85 oed a hŷn. Dydy'r unigolion hŷn yma ddim yn amlwg yn y data Cyfrifiad sydd i'w gweld yn Ffigwr 2.

Ar ben hynny, dydy hi ddim yn gwbl gywir i gymharu Ffigwr 6 â Ffigwr 2 beth bynnag, gan nad yw data'r Cyfrifiad olaf yma'n cynnwys yr unigolion hynny a oedd wedi nodi eu hethnigrwydd yn 'Roma', tra bod y cyntaf yn cynnwys gwybodaeth gan dair aelwyd sydd wedi nodi eu bod nhw'n 'Romani'. Yn wir, mae diffiniad Llywodraeth Cymru yn fwy cynhwysol na diffiniad y Cyfrifiad yn hyn o beth, ac mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yma felly wedi cynnwys pob unigolyn sy'n dod o dan y diffiniad uchod o Sipsiwn a Theithwyr.

Addasrwydd y llety presennol a gorlenwi

Yn gyffredinol, roedd y cyfraddau bodlonrwydd yn uchel ymysg yr unigolion a lanwodd yr holiadur, gyda naw allan o un deg tri o aelwydydd yn nodi eu bod nhw'n fodlon ar eu llety presennol. Nododd pob un o'r naw aelwyd yma nad oedden nhw'n awyddus i symud, sy'n cytuno â'r ffenomen yma. Rhoddodd y pedair aelwyd a nododd 'na', dri rheswm gwahanol am hynny. Nododd yr un gyntaf fod llawer o geudyllau ger mynedfa'r safle (preifat) oedd angen eu trwsio. Nododd yr ail a'r drydedd eu bod nhw'n awyddus i symud i dŷ oherwydd y diffyg safleoedd i Siewmyn Teithiol. Roedd y bedwaredd yn byw mewn gwerysll diawdurdod ac yn awyddus i fyw ar safle parhaol. (Nodwch: mae'r aelwyd olaf yma wedi symud oddi ar ei gwerysll diawdurdod ers hynny am gyfnod amhenodol a chymerodd dim un aelwyd arall ar y safle yna ran yn yr arolwg). Ar ben hynny, er bod dwy aelwyd o Siewmyn Teithiol yn fodlon ar eu safle preifat presennol, mynegon nhw bryderon y gallen nhw gael eu troi allan yn fuan gan y perchennog a'u bod nhw'n poeni y gallen nhw golli eu cartref.

Er bod lefel y bodlonrwydd ar y Safle Awdurdod Lleol ei hun yn uchel yn gyffredinol, nododd un preswlydd fod y bloc cyfleustodau yn oer yn y gaeaf ac y byddai'n croesawu system gwresogi ychwanegol. Yn dilyn ymgynghori â thrigolion a Chynnal a Chadw Eiddo Corfforaethol, doedd gosod rhyw fath o system gwres canolog ddim yn cael ei ystyried yn ymarferol oherwydd nad oedd cyflenwad nwy i'r safle. Mae'r Cyngor, fodd bynnag, yn gobeithio sicrhau cyllid i osod gwresogydd panel yn lle'r system gwyntyll dwymo bresennol, ac felly, mae'r broblem yn derbyn sylw yn barod.

Nododd pob ymatebydd oedd yn byw mewn carafán fod digon o ardaloedd cysgu ar gyfer yr holl breswylwyr, ac yn ddiddorol, bod modd ychwanegu pedair ardal cysgu i bob llain os oedd angen hynny. Doedd gorlenwi felly ddim yn broblem ymhlith yr ymatebwyr, er nad yw hynny (yn amlwg) yn cynnwys y gwerysll diawdurdod oherwydd nad oes lleiniau pendant a doedd hi ddim yn bosibl nodi anghenion y teuluoedd.

Dyheadau llety

Roedd chwech allan o'r un deg tri o aelwydydd yn mynegi dymuniad i gael safle newydd a bydd y rhain yn cael eu trafod yn eu tro.

Aelwyd un a dau

Yn y gorffennol, bu'r aelwydydd yma'n byw ar safleoedd preifat awdurdodedig o dan berchnogaeth unigolion eraill yn Rhondda Cynon Taf. Roedd y ddwy aelwyd wedi prynu tŷ yn ddiweddar, ond dim ond oherwydd bod diffyg safleoedd preifat amgen ar gyfer Siewmyn lle roedd caniatâd cynllunio ar gael. Roedd yr ymatebwyr yn teimlo'n anghyfforddus yn byw ar dir pobl eraill, ond eto yn teimlo yr un mor anghyfforddus oherwydd bod llety brics a mortar yn waharddol o ran eu traddodiadau a'u treftadaeth. Doedd y ddwy aelwyd ddim yn fodlon ar eu llety presennol ac roedden nhw'n bendant am hynny. Byddai'n well gyda nhw fyw mewn carafan yn lle tŷ, a nododd y ddwy eu bod nhw'n awyddus i symud rywdro yn y dyfodol. Ar ben hynny, roedd cyfarpar a lorïau ffair ac ati'r ddwy aelwyd yn cael eu storio ar nifer o safleoedd wedi'u rhentu, ac roedden nhw'n gweld hyn yn broblem.

Felly mae'n bosibl bod y ddwy aelwyd yn profi gwrthwynebiad diwylliannol, hynny yw, "aelodau o gymunedau sydd wedi dilyn traddodiad o fyw mewn cartref symudol neu ar safleoedd ac sy'n ei chael yn anodd ymaddasu i fyw mewn llety confensiynol" (LIC, 2015a, para 173). Serch hynny, mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn awgrymu nad yw hi'n briodol gofyn i'r rheiny y cyfwelir â nhw i roi tystiolaeth o'r gwrthwynebiad yma (h.y. drwy asesiad meddygol neu seiciatrig) yn ystod yr Asesiad ei hun. Mae angen asesiadau mwy manwl o wrthwynebiad diwylliannol unigolion yn rhan o bolisiâu digartrefedd neu ddyrannu lleiniau yr Awdurdod, yn hytrach na'r broses ehangach o amcangyfrif yr angen am leiniau yn gyffredinol sy'n cael ei ddarparu yn yr Asesiad yma.

Mae cyfrifoldebau'r Awdurdod Lleol hefyd yn cael eu gwneud yn glir yn hyn o beth;

Bydd angen i Awdurdodau Tai Lleol ystyried yn ofalus a yw'n bosibl i ddweud bod gan y rheiny y cyfwelon ni â nhw (a ddywedodd ei bod hi'n well gyda nhw fyw ar safleoedd cartrefi symudol) wrthwynebiad diwylliannol tuag at fyw'n barhaol mewn tai confensiynol. Wrth wneud hyn, dylen nhw ystyried y canlynol:

- a. traddodiad diwylliannol yr aelwyd o fyw mewn cartref symudol;
- b. y rheswm dros symud i dai confensiynol;
- c. y tebygolrwydd o niwed i'r unigolyn os bydd yn parhau i fyw mewn tai confensiynol;
- d. y gyfraith achosion sy'n datblygu ynghylch gwrthwynebiad diwylliannol (LIC, 2015a, para. 175).

Gan gofio'r ystyriaethau yma, rydyn ni o'r farn ei bod hi'n bosibl fod y ddwy aelwyd yn dioddef gwrthwynebiad diwylliannol yn seiliedig ar yr amgylchiadau sydd wedi'u crynhoi uchod. Er y byddai angen archwilio yn fwy manwl i'r ddau achos, mae rhywfaint o gyfraith achosion perthnasol ynghylch gwrthwynebiad diwylliannol, a fyddai'n rhaid eu cymryd i ystyriaeth.

Un achos nodedig oedd *Clarke v Yr Ysgrifennydd Gwladol* dros yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau, Cyngor Bwrdeistref Tunbridge Wells [2001] Uchel Lys Cymru a Lloegr 800 (Gweinyddu). Diddymodd yr Uchel Lys a'r Llys Apeliadau benderfyniad swyddog cynllunio i wrthod caniatâd cynllunio ar gyfer carafannau ar dir Sipsi. Barnwyd bod yr Arolygydd wedi torri Erthyglau 8 a 14 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol drwy ystyried cynnig o dai confensiynol a oedd wedi cael ei wneud pan oedd y teulu yn gallu profi ei fod e wedi byw fel Sipsiwn traddodiadol a bod gwrthwynebiad gydag ef tuag at dai brics a mortar. Cafodd yr apêl ei ailystyried a chafodd caniatâd cynllunio ei roi i'r teulu i barhau i fyw yn ei garafannau ar ei dir.

Yn *R (Margaret Price) v Cyngor Sir Gâr* ([2003] Uchel Lys Cymru a Lloegr 42 (Gweinyddol), roedd Mrs Price wedi gwneud cais digartrefedd i'r awdurdod lleol oherwydd nad oedd gyda hi le cyfreithlon i osod ei charafannau. Cynigiodd yr awdurdod lleol dŷ i Mrs Price tra roedd yn ceisio troi ei theulu allan o'i wersyll ar dir o dan berchnogaeth yr awdurdod lleol, a oedd, hyd yr adeg honno, wedi cael ei oddef. Defnyddiodd yr awdurdod lleol y ffaith bod Mrs Price wedi dweud ei bod hi, yn y gorffennol, yn awyddus i fyw mewn tŷ confensiynol yn 2001, fel rheswm digonol dros anwybyddu ei dull o fyw fel Sipsi. Ymchwiliodd y barnwr i'r ffordd roedd yr awdurdod lleol wedi ymdrin â'r mater o wrthwynebiad diwylliannol Mrs Price tuag at dai confensiynol. Cafodd y barnwr fod ymagwedd yr awdurdod lleol wedi bod yn ddiffygiol oherwydd ei fod e wedi rhoi gormod o bwysau ar y ffaith ei bod hi, yn ôl pob golwg, yn barod i roi'r gorau i'w dull traddodiadol o fyw, a byw mewn tŷ confensiynol yn 2001, ac roedd e wedi defnyddio'r ffaith yma yn rheswm digonol dros anwybyddu ei gwrthwynebiad tuag at dai brics a mortar wrth ystyried a oedd y cynnig o dŷ confensiynol yn 'addas' yn ei hachos hi. Diddymodd y barnwr y penderfyniad i droi'r teulu allan, gan ddatgan, "Er mwyn ateb gofynion a dangos parch, mae gofyn am rywbeth mwy na 'chymryd i ystyriaeth' diwylliant sipsi ymgeisydd".

Serch hynny, mae ffeithiau achos *Wingrove a Brown v Yr Ysgrifennydd Gwladol* dros Gymunedau a Llywodraeth Leol a Mendip DC [2009] Uchel Lys Cymru a Lloegr 1476 (Gweinyddol) yn dangos ei bod hi'n ganiataol i unigolyn sy'n gwneud penderfyniadau i ddod i'r casgliad nad oes traddodiad diwylliannol o nomadiaeth na gwrthwynebiad tuag at dai brics a mortar os nad yw'r ffeithiau yn cefnogi'r fath gasgliad mewn achos penodol.

Yn lleol, mae'r ddwy aelwyd dan sylw wedi dangos bod gyda nhw'r modd ariannol i brynu safle ar y cyd i gynnwys dwy lain gyda lle i gadw offer ffair. Roedd un teulu yn benodol hefyd yn ansicr a fyddai'n teimlo'n gyfforddus yn byw ar lain awdurdodedig o dan reolaeth y Cyngor. Yn yr un modd, yn achos Cyngor Dosbarth De Swydd Caergrawnt v Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymunedau a Llywodraeth Leol [2008] Uchel Lys Cymru a Lloegr Sif 1010, cadarnhaodd y Llys Apêl nad oes baich ar yr ymgeisydd i brofi'r diffyg safleoedd eraill ar gyfer lleoli carafannau. Yn y pen draw, mae'n fater i'r awdurdod cynllunio i benderfynu beth yw'r ystyriaethau perthnasol ac i roi'r pwysigrwydd sy'n cael ei ystyried yn briodol i bob un. Gall fod yn briodol felly i ddiwallu'r angen yma drwy Bolisi Ardal Gyfan 15 sy'n seiliedig ar feini prawf.

Aelwyd tri, pedwar a phump

Mae'r aelwydydd eraill, a oedd yn awyddus i symud i safle newydd, yn Siewmyn Teithiol, sydd ar hyn o bryd, yn byw ar yr un safle awdurdodedig. Er bod hyn wedi bod yn drefniant hirsefydlog, roedd y perchennog wedi dweud wrth y tair aelwyd yma bod y safle ar fin cael ei werthu ac y byddai'n rhaid iddyn nhw adael. Serch hynny, yr ystyriaeth sylfaenol yw'r ffaith nad oes hysbysiad troi allan ffurfiol wedi'i gyflwyno i unrhyw o'r teuluoedd yma. Felly, er ei bod hi'n bosibl bydd angen safle newydd ar y teuluoedd yma yn y dyfodol, doedden nhw ddim ar fin cael eu troi allan ar adeg cynnal yr Asesiad. Dywedodd y tair aelwyd efallai y byddai modd ariannol gyda nhw i brynu eu safle eu hunain, ond y gallai fod angen rhyw fath o gymorth arnyn nhw gan y Cyngor. Yn debyg i'r ddau achos blaenorol felly, gallai fod yr un mor briodol i ddiwallu'r angen yma drwy Bolisi Ardal Gyfan 15 seiliedig ar feini prawf, er y gall cynnal asesiad mwy trylwyr ddangos bod angen Safle Awdurdod Lleol.

Aelwyd chwech

Roedd y chweched aelwyd i ofyn am safle newydd yn byw mewn gwerysll diawdurdod yng Nghwm Rhondda. Fel sydd wedi'i grybwyll eisoes, doedd dim modd i'r aelwyd lenwi'r holiadur wyneb yn wyneb ac yn lle hynny, fe ddewisodd anfon copi trwy e-bost i'r Cyngor cyn gadael y safle i deithio dramor. Gofynnodd y teulu am "safle heb ei ddatblygu heb floc cawodydd, trydan na tharmac", gan ychwanegu y "byddai gât a chae/chwarel yn gwneud y tro". Roedd y teulu hefyd wedi cyflwyno cais digartrefedd i'r Cyngor er nad yw'r cais yma bellach yn 'fyw'. Dydy'r Cyngor ddim yn gwybod pryd mae'r aelwyd yma (neu a yw'r aelwyd yma) yn bwriadu dychwelyd i Riondda Cynon Taf a doedd yr aelwydydd eraill ar y safle ddim yn fodlon cymryd rhan yn yr Asesiad yma. Mae'r sefyllfa yma yn fwy cymhleth fyth oherwydd nifer amrywiol y carafannau sydd wedi eu lleoli yn y gwerysll; rhwng pedair a deg ar unrhyw un adeg. O ystyried hyn i gyd, mae'n amhosibl nodi maint yr angen llety ar y safle.

Canfyddiadau Awdurdod Cyfagos

Drwy gydol cynnal yr Asesiad yma, mae'r Cyngor wedi cadw mewn cysylltiad ag awdurdodau lleol cyfagos. Yn wir, fel mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn ei nodi,

"Yn aml nid yw Sipsiwn a Theithwyr wedi gallu cael lle ar safleoedd diwylliannol briodol yn yr ardaloedd lle maent am fyw. Mewn rhai achosion, mae'r ffyrdd gwahanol sydd gan Awdurdodau Lleol o ddarparu safleoedd a chymryd camau gorfodi yn erbyn gwerysloedd wedi dylanwadu ar leoliad cymunedau. Lle mae hyn wedi digwydd, mae'n bosibl y bydd yr Awdurdod Lleol dros yr ardal lle mae'r anghenion mwyaf ar hyn o bryd yn gweld bod angen cydweithio'n agos ag Awdurdodau Lleol eraill yn y rhanbarth i ddod o hyd i ateb ar y cyd." (LIC, 2015a, para. 166).

Mae un achos o'r fath wedi cael ei ddwyn i sylw'r Cyngor. Mae aelwyd sydd wedi nodi 'Sipsi' o ran ei hethnigrwydd yn byw ar hyn o bryd ar safle carafannau yng Nghaerffili. Mae'n debyg fod gan yr aelwyd yma gysylltiadau â Rhondda Cynon Taf er i Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili nodi nad oes anghenion llety ar yr aelwyd yma ar hyn o bryd. Dydy'r aelwyd yma felly ddim yn cael ei hystyried yn un sydd ag anghenion llety ar hyn o bryd ac mae'r awydd i fyw yn Rhondda Cynon Taf yn cael ei ystyried yn 'ddewis' yn hytrach nag angen. Serch hynny, cysylltwyd â'r aelwyd mewn modd priodol er mwyn iddi gael ei rhoi ar y rhestr aros ar gyfer lleiniau Cyngor.

Twf mewn aelwydydd

Nododd dim un o'r unigolion y cyfwelon ni â nhw bod unrhyw berson sy'n rhan o aelwyd ar hyn o bryd, yn debygol o ddymuno symud i'w gartref ei hun yn ystod y pum mlynedd nesaf. Gan hynny, does dim twf amlwg mewn aelwydydd sydd angen sylw brys ar hyn o bryd, yn seiliedig ar y deuddeg arolwg a gafodd eu cynnal. Yn wir, doedd dim unrhyw achosion o oedolion ifainc yn byw gyda'u rhieni o hyd ac roedd tair o'r aelwydydd (a gymerodd ran yn yr Asesiad) yn eu hugeiniau cynnar, ac felly, wedi ffurfio aelwydydd newydd yn ddiweddar beth bynnag. Lle roedd plant yn bresennol yn yr aelwydydd, roedden nhw un ai'n ifanc iawn neu'n rhy ifanc i ddechrau ystyried ffurfio eu haelwydydd eu hunain. Er enghraifft, roedd dwy ferch tair ar ddeg oed ac un ferch 12 oed yn byw ar aelwydydd gyda'u mamau, er nad oedd y rhieni o'r farn y bydden nhw'n ffurfio eu teuluoedd eu hunain o fewn y pum mlynedd nesaf. Serch hynny, mae posibilrwydd y bydd yr unigolion yma'n ffurfio aelwydydd newydd tuag at ran olaf cyfnod yr Asesiad, er ei bod hi'n bosibl y bydd eu hangen yn dod yn fwy amlwg mewn Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yn Rhondda Cynon Taf yn y dyfodol.

Mae angen i ni, fodd bynnag, amcangyfrif y twf mewn aelwydydd. Mae Llywodraeth Cymru yn nodi bod y

"data a gasglwyd o'r blaen wrth gynnal asesiadau llety Sipsiwn a Theithwyr yn awgrymu bod y twf hwn rhwng 1.5% a 3% y flwyddyn"(LIC, 2015a, para. 203). Serch hynny, mae hyn hefyd yn cael ei ystyried yn bwysig "er mwyn peidio â chyrraedd amcangyfrif sy'n rhy isel neu uchel" (LIC, 2015a, para. 204).

Os cymerwn ni y bydd y ddau unigolyn fydd yn cael eu pen-blwyddi'n 18 oed yn ystod yr Asesiad presennol, yn ffurfio aelwydydd newydd o fewn y pum mlynedd nesaf a doedd dim marwolaethau ymlith yr aelwydydd eraill a gymerodd ran yn yr arolwg, bydd nifer yr aelwydydd yn cynyddu o 13 i 15. Byddai hyn yn cynrychioli cyfradd twf ganrannol o 15% mewn pum mlynedd, neu 3% y flwyddyn (twf cyfansawdd). Er bod hyn yn seiliedig ar sampl gymharol fach, mae'n dod o fewn paramedr uwch y gyfradd twf ddisgwyliedig ac felly mae modd ei ddefnyddio fel amcangyfrif rhesymegol o dwf aelwydydd.

Pennod Pump: Asesu Anghenion Llety

Cyfrifo'r angen cyffredinol am lety

Ar hyn o bryd, mae un safle Awdurdod Lleol yn Rhondda Cynon Taf sy'n cynnwys chwe llain breswyl ar gyfer rhent cymdeithasol. Mae'r cyflenwad preswyl sy'n weddill yn deillio o 4 safle preifat awdurdodedig, gyda 15 llain rhyngddyn nhw. Mae dau o'r safleoedd wedi cael caniatâd cynllunio ac mae'r ddau arall wedi bodoli am gyfnod digon hir i fod yn ddiogel rhag camau gorfodi priodol. Felly, mae dau ddeg un o leiniau awdurdodedig yn Rhondda Cynon Taf. Serch hynny, mae'r safleoedd preifat o dan berchnogaeth teuluoedd penodol, sydd yn byw arnyn nhw hefyd. Felly, ddylen ni ddim cymryd yn ganiataol y byddai unrhyw leiniau gwag sy'n codi ar y safleoedd yma yn gallu diwallu anghenion cyffredinol ar gyfer lleiniau yn Rhondda Cynon Taf, er ein bod ni'n gwybod bod un perchennog safle yn benodol wedi caniatáu i deuluoedd eraill rentu lleiniau. Dylid nodi hefyd bod y cyfanswm yma'n cynnwys un safle diawdurdod, sy'n gartref i nifer gyfnewidiol o garafannau, gan nad oes sicrwydd wedi cael ei roi i drigolion y bydd y safle yn ddiogel rhag camau gorfodi cynllunio. Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru yn glir na ddylai safleoedd o'r fath yma gael eu cynnwys yn y cyflenwad o lety preswyl presennol. Ar ben hynny, gan nad oedd preswylwyr presennol y safle yma yn dymuno cymryd rhan yn yr Asesiad yma, mae'n amhosibl pennu eu hanghenion llety.

Fydd dim safleoedd newydd (Awdurdod Lleol neu breifat) yn cael eu datblygu yn ystod y pum mlynedd nesaf. Yn sgîl cwblhau gwaith adnewyddu yn 2012 ar y safle Cyngor, roedd tair llain newydd ar gael. Cafodd y tair eu hail-osod drwy'r Gofrestr Tai Cyffredin. Ar adeg paratoi'r Asesiad yma, doedd dim aelwydydd sy'n dweud eu bod nhw'n 'Sipsiwn neu'n Deithwyr Romani / Gwyddelig' sy'n aros am lain carafan ac sydd ar y Gofrestr Tai Cyffredin. Roedd un, fodd bynnag, oedd yn aros am lety brics a mortar, yn hytrach na llain carafannau. Fel sydd wedi'i nodi eisoes, roedd yr ymdrechion i ymgysylltu â'r teulu yma'n aflwyddiannus.

Mae Tabl 3 yn ceisio amcangyfrif yr angen am leiniau safle preswyl dros gyfnod 5 mlynedd yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr a chyfnod presennol y Cynllun Datblygu Lleol (hyd at 2021). Serch hynny, o ystyried natur a statws safleoedd penodol ynghyd â chefnidiroedd amrywiol aelwydydd penodol, dydy'r cyfrifiad yma ddim yn ddefnyddiol iawn. Byddwn ni'n ymhelaethu ar hyn.

Tabl 3: Amcangyfrif yr angen am leiniau preswyl ar safleoedd

Cyflenwad presennol o leiniau preswyl	Nifer y lleiniau
A. Lleiniau Awdurdod Lleol a feddiannwyd	6
B. Lleiniau preifat awdurdodedig a feddiannwyd	11
Cyfanswm	17

Y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl	Nifer y lleiniau
C. Lleiniau Awdurdodau Lleol gwag a lleiniau preifat gwag sydd ar gael	0
D. Lleiniau y disgwylir iddynt ddod yn wag yn y dyfodol agos (gweler nodyn 1)	1
E. Lleiniau Awdurdod Lleol a phreifat newydd y mae caniatâd cynllunio ar eu cyfer	0
Cyfanswm	1

Galw presennol am leiniau preswyl	Y galw am leiniau
F. Gwersylloedd diawdurdod	0
G. Datblygiadau diawdurdod	0
H. Lleiniau wedi'u gorlenwi (gweler nodyn 2)	0
I. Tai confensiynol (gweler nodyn 3)	2
J. Aelwydydd newydd a fydd yn cyrraedd (gweler nodyn 4)	0
Cyfanswm	2

Aelwydydd presennol (gweler nodyn 7)	Aelwydydd yn y dyfodol (ym mlwyddyn 5)	Aelwydydd yn y dyfodol (cyfnod y Cynllun)
K. $17 + 2 - 1 = 18$	21	21
L. Cyfanswm yr angen am leiniau ychwanegol	3	3

Angen heb ei ddiwallu	Yr angen sy'n codi	Yr angen sydd wedi'u diwallu
M. Y galw presennol am leiniau preswyl	2	
N. Y galw am leiniau preswyl yn y dyfodol (5 mlynedd)	3	
O. Y galw am leiniau preswyl yn y dyfodol (cyfnod y Cynllun)	3	
P. Y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl		1
Q. Angen nas diwallwyd (5 mlynedd) (5 mlynedd)		4
R. Angen nas diwallwyd (cyfnod y Cynllun)		4

Yn gyntaf, dydy'r tair aelwyd oedd o'r farn y gallen nhw gael eu troi allan o'r safle uchod ddim wedi cael eu cynnwys yn y ffigyrau ar gyfer y galw preswyl presennol oherwydd nad yw hysbysiadau troi allan ffurfiol wedi cael eu cyflwyno iddyn nhw. Mae'n bosibl y gall yr aelwydydd yma ddiwallu'u hanghenion drwy brynu safle a cheisio caniatâd cynllunio drwy'r polisi seiliedig ar feini prawf yn y Cynllun Datblygu Lleol. Fel arall, byddai'r aelwydydd yma'n destun asesiad hyfywedd ariannol i benderfynu a ydyn nhw angen darpariaeth safle cyhoeddus ar ôl i hysbysiad troi allan gael ei gyflwyno iddyn nhw.

Yn ail, mae'n bosibl fod y ddwy aelwyd sy'n byw mewn tai confensiynol (rhan I) yn profi gwrthwynebiad diwylliannol, a byddai angen ymchwilio i hyn ymhellach. Serch hynny, mae'r ddwy aelwyd yma'n dymuno prynu safle preifat beth bynnag a thrwy hynny fe fydden nhw'n gallu diwallu'u hanghenion drwy'r polisi sy'n seiliedig ar feini prawf yn y Cynllun Datblygu Lleol.

Yn drydydd, mae'r aelwyd sydd â llety digonol ar hyn o bryd yng Nghaerffili hefyd wedi cael ei hepgor o'r cyfrifiadau yma, er ein bod ni wedi cysylltu â hi er mwyn ei hychwanegu at y rhestr aros ar gyfer llain Cyngor. Byddwn ni'n darparu ar gyfer ei dewisiadau yn hytrach na'i hanghenion drwy wneud hyn.

Gan hynny, er bod y canllawiau yn gofyn i ni roi'r cyfrifiad meintiol yma, dydy e ddim yn ddefnyddiol iawn wrth amcangyfrif yr angen am leiniau. Mewn gwirionedd, mae dadansoddi'r data ansoddol yn rhoi gwell amcangyfrif o hyn. Yn benodol, rydyn ni o'r farn y bydd modd darparu ar gyfer y ddwy aelwyd newydd bosibl ar y safle Cyngor ar eu lleiniau unigol presennol oherwydd bod lle ar gyfer carafán ychwanegol ar bob un. Byddai modd darparu ar gyfer unrhyw

dwf arall yn y gymuned yma (yn seiliedig ar 3%) drwy drosiant o fewn y pum mlynedd nesaf, fel mae tueddiadau yn y gorffennol wedi dangos.

Anghenion heb eu diwallu o ran lleiniau tramwy

Dydy data cyfrifiad carafannau a chofnodion lleol ddim yn dangos bod y mwyafrif ohonyn nhw wedi'u lleoli mewn gwersylloedd diawdurdod yn Rhondda Cynon Taf. Er gwaethaf y gwersyll diawdurdod uchod yng Nghwm Rhondda, dim ond ychydig o wersylloedd tymor byr sydd yn y Fwrdeistref Sirol, fel sy'n cael ei nodi yn Nhabl 4.

Tabl 4: Gwersylloedd diawdurdod diweddar yn Rhondda Cynon Taf

Lleoliad	Ardal	Cyrraedd	Nifer y carafannau
Parc Hen Lofa'r Navigation	Abercynon	Mehefin 2013	7
Maes Baglan	Treherbert	Gorffennaf 2013	2
Canolfan Michael Sobell	Aberdâr	Gorffennaf 2013	3
Parc Magden	Tonysguboriau	Gorffennaf 2015	3
Neuadd Glan-elái	Tonysguboriau	Hydref 2015	4

Fel sydd wedi'i drafod uchod, doedd yr un o'r gwersylloedd yma'n parhau i fod ar y safleoedd yma am fwy nag ychydig ddyddiau a nododd y preswylwyr a gymerodd ran na fydden nhw'n defnyddio safle tramwy / dros dro swyddogol hyd yn oed pe byddai un ar gael. Fel sy'n cael ei nodi yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru, "sefydlir rhai gwersylloedd hefyd heb yr awydd i aros yn barhaol neu dros dro yn yr ardal" (LIC, 2015a, para. 209). Heb ystyried y ffenomen yma, mae nifer o bwerau sydd ar gael i ymateb i wersylla diawdurdod ac i symud preswylwyr o'r fath i safleoedd tramwy neu fannau aros dros dro. Mae adrannau 61 a 62 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn ymestyn pwerau i'r heddlu i symud unrhyw dresmaswr neu gerbyd ymaith o dir, ac mae Adrannau 62A - E yn ymestyn pwerau ychwanegol i'r heddlu mewn perthynas â thresmaswyr. Ar ben hynny, mae Adran 77 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994 yn ymestyn pŵer i awdurdodau lleol i orchymyn pobl i adael y tir a symud unrhyw gerbydau neu eiddo.

Serch hynny, mae'r gwersylloedd diawdurdod tymor byr sydd wedi'u cofnodi yn Nhabl 4 wedi para yn llythrennol am ychydig ddyddiau yn unig. Felly, erbyn i'r pwerau yma gael eu rhoi ar waith, byddai'r preswylwyr wedi symud beth bynnag. Yn unol â'r canllawiau Rheoli Gwersylla Diawdurdod, felly, mae'r Cyngor yn goddef gwersylloedd diawdurdod lle mae ymweliad safle yn datgelu bwriad y preswylwyr i aros am **gyfnod byr iawn o amser**, er enghraifft, pan fyddan nhw

ar eu ffordd i gyrchfan arall. O ystyried nifer fach y gwersylloedd anghyfreithlon a hyd yr arosiadau, does dim digon o dystiolaeth leol i gyfiawnhau darparu safle tramwy neu fan aros dros dro yn Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd, ond bydd y sefyllfa yma'n cael ei monitro'n briodol, yn lleol ac yn rhanbarthol.

Pennod Chwech: Casgliad a Chamau nesaf

Mae'r Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr yma wedi dadansoddi ystod o ffynonellau data elfennol ac eilaidd i asesu anghenion y Gymuned Sipsiwn a Theithwyr yn Rhondda Cynon Taf. Yn gyntaf, paratowyd a chraffwyd ar ffynonellau presennol o wybodaeth, er enghraifft, y cyfrifiad carafannau, cofnodion y Cyfrifiad a data oedd gan ystod o randdeiliaid lleol. Yna, aethon ni ati mewn amryw o ffyrdd i baratoi ar gyfer cynnal y prif arolygon data. Ceisiodd swyddogion y Cyngor ymgysylltu â 30 o gartrefi i gyd a chafodd 13 o gyfweiliadau eu cynnal.

Datgelodd dadansoddi'r data sylfaenol yma ystod o anghenion llety posibl. Yn gyntaf, mae'n bosibl bod gan ddwy aelwyd sydd ar hyn o bryd yn byw mewn tai brics a mortar wrthwynebiad diwylliannol tuag at hynny, ac maen nhw wedi mynegi awydd i brynu Safle Siewmyn Teithiol ar y cyd. Rydyn ni o'r farn y gall hyn gael ei hwyluso drwy Bolisi Ardal Gyfan 15 sy'n seiliedig ar feini prawf, ac rydyn ni wedi cysylltu â'r teuluoedd yma a'u hatgyfeirio i'r Adran Cynllunio er mwyn trafod addasrwydd safle gyda golwg ar ddiwallu anghenion y ddwy aelwyd. Byddai hyn yn rhoi cyfrif am ddwy o'r aelwydydd yng nghategori angen heb ei ddiwallu Tabl 3.

Gall tair o'r aelwydydd sydd ar hyn o bryd yn byw ar safle preifat gael eu troi allan ar ryw adeg yn y dyfodol, er nad ydyn ni o'r farn bod angen llety arnyn nhw ar hyn o bryd. Mae'r aelwydydd yma wedi nodi ei bod hi'n bosibl y byddan nhw'n gallu prynu safle, er na all fod digon o arian gyda nhw i wneud hynny. Gallai ei bod hi felly yr un mor bosibl i'r aelwydydd brynu a gweithredu safle trwy Bolisi Ardal Gyfan 15, er y byddai angen asesiad hyfywedd ariannol. Rydyn ni wedi cadw manylion cyswllt yr aelwydydd yma a byddwn ni'n cysylltu â nhw eto yn dilyn cwblhau'r Asesiad yma i ganfod eu statws presennol a phenderfynu a oes gyda nhw sicrwydd daliadaeth. Os yw'r trafodaethau yma'n datgelu bod hysbysiadau troi allan wedi cael eu cyflwyno iddyn nhw, byddwn ni'n cynnal asesiad hyfywedd i benderfynu a oes angen darparu neu hwyluso safle drwy'r Adran Cynllunio.

Mae'n bosibl y bydd dau unigolyn yn ffurfio teuluoedd newydd ar y safle Cyngor yn ystod cyfnod yr Asesiad yma. Mae digon o le ar y ddwy lain bresennol i garafán ychwanegol felly rydyn ni o'r farn nad oes angen darparu lleiniau newydd ar gyfer yr aelwydydd yma. Felly, bernir y byddai modd darparu ar gyfer y twf posibl yn yr aelwydydd sydd wedi'u nodi yn Nhabl 3 yn y ffordd yma pe bai'r rhagamcanion yma'n dod yn realiti. Mae un aelwyd arall sydd ar hyn o bryd â llety digonol yng Nghaerffili wedi nodi y byddai'n well gyda nhw fyw ar y safle yma ac felly, maen nhw wedi cael eu gwahodd i roi'i henw ar y rhestr aros.

Yn olaf, gan na ddewisodd preswylwyr presennol y gwerysll diawdurdod yng Nghwm Rhondda ymgysylltu â'r Cyngor, mae'n amhosibl pennu anghenion llety drwy'r Asesiad yma. Er hynny,

bydd ymweliadau safle cyfnodol yn cael eu cynnal o hyd er mwyn canfod a yw'r gymuned yn tyfu ac a yw unrhyw anghenion llety ar gyfer y dyfodol yn dod i'r amlwg.

Ar ben hynny, mae'r angen am safle tramwy a man aros dros dro wedi cael ei ystyried yn briodol yn rhan o'r Asesiad yma. Serch hynny, dydy'r dystiolaeth leol ddim wedi dangos angen am ddim un o'r ddau oherwydd dau brif reswm. Yn gyntaf, ac eithrio'r gwrsyll tymor hir yng Nghwm Rhondda (na ymgysylltodd â'r Cyngor), dim ond nifer fach o wersylloedd tymor byr anghyfreithlon sydd wedi eu cofnodi yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Roedd y gwrsylloedd yma mor dymor byr o ran eu natur, erbyn y byddai'r Cyngor yn ceisio eu symud nhw, fe fydden nhw wedi gadael beth bynnag. Yn ail, yn unol â'r canllawiau Rheoli Gwersylla Diawdurdod, mae'r Cyngor yn goddef gwrsylloedd diawdurdod lle mae ymweliad safle yn datgelu bwriad y preswylwyr i aros am gyfnod byr iawn o amser, er enghraifft, pan fyddan nhw ar eu ffordd i gyrchfan arall. Am hynny, does dim digon o dystiolaeth leol i gyfiawnhau darparu safle tramwy neu fan aros dros dro yn Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd, ond bydd y sefyllfa yma'n cael ei monitro'n briodol, yn lleol ac yn rhanbarthol. Bydd pob achos yn cael ei gofnodi gan y Cyngor ac os daw'n amlwg bod nifer gynyddol o wersylloedd anghyfreithlon yn dod i Rhondda Cynon Taf am gyfnodau hwy na sawl diwrnod ar y tro, byddwn ni'n ailystyried y sefyllfa yma.



Your Home Your Say

Gypsy and Traveller Accommodation Needs Assessment

- Rhondda Cynon Taf Council is looking into the living needs of Gypsies and Travellers.
- If you are a Gypsy or Traveller living in Rhondda Cynon Taf we would like to hear from you.
- We need to hear your views so that we can make sure we understand your living needs.
- **The information from the interviews will be private. No one will be able to trace any answer back to you.**



If you would like to take part:

 **01443 425678**  **Fill in a questionnaire on www.rctcbc.gov.uk**

 **housingstrategy@rctcbc.gov.uk**

Eich cartref Eich barn

Asesu Anghenion Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr

- Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf yn ystyried anghenion byw Sipsiwn a Theithwyr.
- Os ydych chi'n Sipsi neu'n Deithiwr yn byw yn Rhondda Cynon Taf, rhowch wybod i ni.
- Mae angen inni glywed eich barn er mwyn inni ddeall eich anghenion byw.
- Bydd yr wybodaeth o'r cyfweiliadau yn breifat. Fydd neb yn gallu olrhain o ble ddaeth yr atebion.



Os hoffech chi gyfrannu:



01443 425678



Llenwch holiadur yn www.rctcbc.gov.uk



strategaethdai@rctcbc.gov.uk



STRONG HERITAGE | STRONG FUTURE
RHONDDA CYNON TAF
TRIFFUDATH GADARN | DYFODOL ICE

Atodiad 2

Rhestr termau: Eglurhad ar y termau sydd wedi eu defnyddio yn yr Asesiad yma

Sipsiwn neu Deithiwr	<p>(a) "Personau sy'n arfer ffordd nomadig o fyw, beth bynnag fo'u hil neu eu tarddiad, gan gynnwys:</p> <p>(1) Personau sydd, ar sail eu hanghenion addysg, eu hanghenion iechyd neu eu henaint eu hunain, neu anghenion addysg, anghenion iechyd neu henaint eu teulu neu ddibynnydd, ac ar y sail honno yn unig, wedi rhoi'r gorau i deithio dros dro neu yn barhaol, ac</p> <p>(2) Aelodau o grŵp trefnedig o siewmyn teithiol neu bersonau sy'n rhan o syrcau teithiol (pa un a ydynt yn cyd-deithio mewn grŵp o'r fath ai peidio), ac</p> <p>(b) Unrhyw bersonau eraill sydd â thraddodiad diwylliannol o nomadiaeth neu o fyw mewn cartref symudol.</p> <p>Ffynhonnell: Adran 108 o Ddeddf Tai (Cymru) 2014</p>
Safle preswyl	<p>Gall safle preswyl parhaol fod o dan berchenogaeth breifat neu berchenogaeth Awdurdod Lleol. Bydd y safle yma wedi'i ddynodi i'w ddefnyddio fel safle Sipsiwn a Theithwyr am gyfnod amhenodol. Gall preswylwyr y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau cyhyd ag y byddant yn cadw at delerau eu cytundebau llain, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013.</p> <p>Gellir darparu lle gweithio hefyd ar neu ger safleoedd ar gyfer cynnal gweithgareddau gan aelodau'r gymuned.</p>
Safle preswyl dros dro	<p>Mae'r safleoedd yma'n safleoedd preswyl sydd â chaniatâd cynllunio neu drwydded safle am gyfnod penodol. Gall preswylwyr y safleoedd hyn ddisgwyl meddiannu eu lleiniau dros gyfnod y caniatâd cynllunio neu drwydded safle (neu cyhyd ag y byddant yn cadw at delerau eu cytundeb llain, o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 – pa bynnag gyfnod sydd fyrraf).</p>

<p>Safle tramwy</p>	<p>Safleoedd tramwy yw cyfleusterau parhaol sydd wedi'u bwriadu i'w defnyddio dros dro gan feddianwyr. Rhaid dynodi'r safleoedd hyn a rhaid iddynt gynnig ffordd i Sipsiwn a Theithwyr barhau â ffordd nomadig o fyw. Caniateir i feddianwyr unigol breswyllo ar y safle am 3 mis ar y tro ar y mwyaf.</p> <p>Mae telerau penodol o dan Ddeddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013 yn gymwys i'r safleoedd yma. Gellir darparu lle gweithio hefyd ar neu ger safleoedd ar gyfer cynnal gweithgareddau gan aelodau'r gymuned.</p>
<p>Man aros dros dro</p>	<p>Rhai o'r enwau eraill arno yw 'gwersyll' neu 'Atchin Tan'. Mae'r rhain i'w defnyddio dros y tymor byr i helpu Awdurdodau Lleol lle y derbynnir bod angen lleiniau ond nad oes dim ar gael ar y pryd. Gellir adleoli gwersylloedd mewn lleoedd amhriodol i fannau aros dros dro sydd wedi'u pennu ymlaen llaw wrth baratoi safleoedd eraill.</p> <p>Rhaid darparu ar gyfer gwaredu gwastraff, cyflenwi dŵr a glanweithdra ar fannau aros dros dro.</p>
<p>Llain breswyl</p>	<p>Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am gyfnod amhenodol (oni bai fod eu cytundeb llain yn nodi fel arall). Fel arfer bydd yn cynnwys bloc amwynderau, lle ar gyfer carafán sefydlog a charafán deithiol a lle parcio.</p>
<p>Llain dramwy</p>	<p>Tir ar safle cartrefi symudol lle mae gan feddianwyr hawl i osod eu cartrefi symudol am 3 mis ar y mwyaf.</p> <p>Gellir cael lleiniau tramwy ar safleoedd preswyl parhaol ond nid yw hyn yn cael ei argymhell.</p>
<p>Gwersyll diawdurdod</p>	<p>Tir wedi'i feddiannu heb ganiatâd y perchennog neu heb gael caniatâd cynllunio cywir i ddefnyddio'r tir.</p> <p>Caiff yr Awdurdod Lleol oddef gwersylloedd tra bydd safleoedd eraill yn cael eu datblygu.</p>
<p>Datblygiad diawdurdod</p>	<p>Tir wedi'i feddiannu gan y perchennog heb gael y caniatâd cynllunio sydd ei angen i ddefnyddio'r tir.</p>

Cyflenwad presennol o leiniau preswyl	Nifer y lleiniau awdurdodedig sydd ar gael ac wedi'u meddiannu o fewn ardal yr Awdurdod Lleol neu bartneriaeth. Mae hyn yn cynnwys lleiniau ar safleoedd Awdurdod Lleol a safleoedd preifat.
Galw presennol am leiniau preswyl	Y rheini y mae angen lleiniau awdurdodedig arnynt am wahanol resymau, gan gynnwys: <ul style="list-style-type: none"> • anallu i sicrhau llain awdurdodedig sydd wedi arwain at feddiannu gweryslyoedd diawdurdod; • anallu i sicrhau caniatâd cynllunio cywir ar gyfer datblygiad diawdurdod; • aelwydydd sy'n profi gorlenwi ac sydd am gael llain; • aelwydydd mewn tai confensiynol sy'n dangos gwrthwynebiad diwylliannol; • aelwydydd newydd y disgwylir iddynt gyrraedd o leoedd eraill.
Galw am leiniau preswyl yn y dyfodol	Nifer yr aelwydydd newydd y disgwylir iddynt ffurfio a fydd yn creu mwy o alw o fewn cyfnod 5 mlynedd yr asesiad o lety a chyfnod hirach y CDLI.
Cyfanswm yr angen am leiniau preswyl	Y cyfrif terfynol o anghenion llety sydd heb eu diwallu sydd i'w bennu drwy broses yr asesiad o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr. Gellir cyfrifo'r ffigur hwn drwy adio'r angen presennol am leiniau preswyl at y galw am leiniau preswyl yn y dyfodol. Bydd cyfanswm yr angen am leiniau preswyl yn dangos yr anghenion dros y cyfnod 5 mlynedd y mae'r asesiad o lety'n cael ei ystyried yn ddibynadwy.
Cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl	Nifer y lleiniau awdurdodedig sy'n wag ac sydd ar gael i'w rhentu ar safleoedd Awdurdod Lleol a safleoedd preifat. Mae hefyd yn cynnwys lleiniau a fydd yn wag yn y dyfodol agos am fod aelwydydd wedi symud i dai confensiynol neu oherwydd amgylchiadau eraill. Dylid cynnwys lleiniau ychwanegol y disgwylir iddynt agor a safleoedd preifat sy'n debygol o gael caniatâd cynllunio yn y cyflenwad arfaethedig o leiniau preswyl.
Aelwyd	Yn y canllawiau hyn mae'n golygu unigolion o'r un teulu sy'n byw gyda'i gilydd ar un llain neu mewn un tŷ/gwersyll.

<p>Aelwyd gudd neu ddwbl</p>	<p>Mae hyn yn golygu aelwydydd sy'n methu â chael eu llety awdurdodedig eu hunain ac sy'n byw yn lle hynny mewn llety awdurdodedig (tai neu leiniau) sydd wedi'i aseinio i aelwyd arall.</p> <p>Gall hyn gynnwys plant sydd bellach yn oedolion sydd wedi methu â symud i'w cartref eu hunain neu aelwydydd gwahanol sy'n meddiannu un llain.</p>
<p>Twf mewn aelwydydd</p>	<p>Y diffiniad o dwf mewn aelwydydd yn y canllawiau hyn yw nifer yr aelwydydd newydd sy'n deillio o aelwydydd sydd eisoes mewn llety yn yr ardal.</p>

Cyfeiriadau

Prydain Fawr. *Deddf Tai 1985 (c.68)*. Norwich: TSO.

Prydain Fawr. *Deddf Tai 2004 (c.34)*. Norwich: TSO.

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. 2014. *What does the 2011 Census tell us about the Characteristics of Gypsy or Irish Travellers in England and Wales?*. [Online] <URL: http://www.ons.gov.uk/ons/dcp171776_349352.pdf> [Accessed 11th November 2015].

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. 2007. *Asesiad o Anghenion Llety ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr*. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. 2011. *Cynllun Datblygu Lleol Mabwysiedig*. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. 2013. *Adeiladu ar Seiliau Cadarn; Cynllun Darparu Tai ar gyfer Rhondda Cynon Taf*. Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

Llywodraeth Cymru *Cylchlythyr 30/2007: Cynllunio ar gyfer Safleoedd Sipsiwn, Teithwyr a Siewmyn*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Cymru. *Deddf Tai (Cymru) 2014*. Y Deyrnas Unedig: Stationery Office Limited.

Cymru. *Deddf Cartrefi Symudol (Cymru) 2013*. Y Deyrnas Unedig: Stationery Office Limited.

Swyddfa Gymreig. *Cylchlythyr 78/91: Perfformwyr teithiol*. Caerdydd: Swyddfa Gymreig

Llywodraeth Cymru. 2015. *Cynnal Asesiadau o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

Llywodraeth Cymru. 2015. *Cynllunio ar gyfer Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru

Llywodraeth Cymru. 2015c. *Cyfrif Carafannau Sipsiwn a Theithwyr, Gorffennaf 2015*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru